# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 7 TACHWEDD 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Hwyl dwy Ŵyl



Ysgol Twm o'r Nant yn Gorymdaith Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2020




Gŵyl Eirin Dinbych



Barbra Crawford - Tud 17



Gethin Coediog Hughes - Tud 19



Syr Thomas Artemus Jones - Tud 7

**BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfrgell erbyn HANNER DYDD, dydd Gwener, Tachwedd 22 neu os oes modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk - Ar Werth Rhagfyr 7**

## Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2020
















Capel Brwcws gyda'i haddurniadau nadolig - Tud 4

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
- **Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones 01745 812214
russelljones9 @talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

# Gair gan y Golygydd

Braf oedd bod yn rhan o orymdaith liwgar, hwyliog a swnllyd o tua 1600 o blant ac oedolion drwy strydoedd Prestatyn fel rhan o Ŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 yn ddiweddar.
Profiad cyffrous a phleserus oedd cerdded tu ôl i faner fawr Ysgol Twm o'r Nant a theimlo balchder yn ein Cymreictod, ein hiaith a'n diwylliant ymysg y to ifanc brwdfrydig a dangos hynny'n hyderus wrth i siopwyr y dref a chefnogwyr stopio ar fîn y ffordd i guro dwylo a chwifio breichiau a'n hannog ymlaen ar ein taith. Roedd rhaid stopio'r traffig a phawb yn eu ceir wedi syfrdanu o'n gweld yn hawlio'r ffordd – roeddem wedi herwgipio Prestatyn am y pnawn a Band Cambria a chyflwynwyr Cyw ar S4C yn arwain y gâd i erddi Bastion wrth Ganolfan y Nova i fwynhau pnawn o adloniant bywi'r teulu gan gynnwys cerddoriaeth fyw o'r llwyfan a pherfformiadau byw gan ysgolion lleol, sesiynau chwaraeon ar y cae ac amrywiol stondinau – i gyd yng nghwmni Mistar Urdd! Waw!
Mae'n argoeli'n Eisteddfod arbennig fis Mai nesaf ar dir Fferm Kilford ger Dinbych.Dewch yn llu.
Cofiwch fod cyfle i gefnogi gweithgareddau codi arian dros dymor y gaeaf.

-----------------------------------

Ar yr un diwrnod â'r orymdaith ym Mhrestatyn tyrrodd cannoedd o bobl i Wledd Eirin Dinbych i flasu'r cynnyrch lleol gan gynnwys cynnyrch eirin Dinbych fel jam, siocled a fodca! Roedd 80 o stondinau yn rhan o'r Ŵyl gan gynnwys stondinau crefftau lleol.
Yn ôl Nia Williams, ysgrifennydd Grŵp Eirinen Dinbych, 'Mae poblogrwydd Gwledd Eirin Dinbych wedi cynyddu dros y blynyddoedd… Gwneir yr holl waith ar gyfer y Wledd Eirin ganwirfoddolwyr a gwnant hyn oherwydd eu bod mor falch fod gennym ein heirinen ein hunain.'
Diolchwn i Nia, i'r Cadeirydd Peter Jones neu Peter Plum fel y'i gelwira'r holl wirfoddolwyr,a chofiwn mai Grŵp Eirin Dinbych a sicrhaodd fod enw eirinen Dinbych yn cael ei ddiogelu gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Chwefror eleni.
Roedd digon o ddigwyddiadau eraill yn y dref yn ddiweddar fel yr Ŵyl Gwrw a Drysau Agored Dinbych. Yndi, mae'n tref yn dref brysur a bywiog.

-----------------------------------

Yn y rhifyn hwn, mae teyrnged i'r ddiweddar Jean Powell a fu'n flaenllaw ym myd crochenwaith a cherameg ac yn gynllunydd gyda Craig Bragdy. Hefyd cawn hanes dylunydd tesctilau ifanc o Ddinbych, Gethin Ceidiog Hughes, sydd newydd lansio sgarffiau denim Japaneaidd.
Does wybod be ddigwyddodd i Dîm Rygbi Cymru yn Siapan wrth i'r Bigwn fynd i'w wely. Hei lwc!
Diolch i bawb a gyfrannodd i'r rhifyn hwn o'r Bigwn a chofiwch gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg!

Erfyl Williams

### CYWIRIAD

Dymunwn nodi nad Côr Cytgan Clwyd yw enw Côr Leah Owen fel y cyhoeddwyd yn y Bigwn, y mis diwethaf ond yn hytrach Lleisiau'r

## Dyddiadur

**Nos Fawrth, Tachwedd 12fed.**
am 7:00yh
Cyngerdd a Chawl yng Nghwmni Dylan Cernyw yn y Clwb Golff, Dinbych.
Pris Tocyn: £12.50 o Siop Clwyd.
Mynediad drwy docyn yn unig.
Elw atEisteddfod yr Urdd 2020.

**Bore Sadwrn, Tachwedd 16eg 10:00-12:00 y.b.**
Dewch i gyfarfod Deian a Loliyn Ysgol Twm o'r Nant
Cyfleisiarad a chael hunlun efo Deian a Loli.
Paned a stondin nwyddau'r Urdd a raffl.
Tocynnauwrth y drws: £5 i blant a £1 ioedolion
Elw at Bwyllgor Apêl Dinbych, Eisteddfod 2020
Am fwy o fanylion cysylltwch ag eisiwyn@icloud.com

**Nos Sadwrn, Ionawr 25ain. 2020**
Gig/Noson Bryn Fôn
Yn Neuadd y Dref, Dinbych.
Tocynnau: £15 neu £18 wrth y drws.

**CymdeithasCaledfryn Tachwedd 29ain**
'Mab y Mynydd' ganJ.Elwyn Williams.

## BAG Y BIGWN

| | |
|---|---|
| Hetty Humphreys, Bro Dawel | £ 5.00 |
| Hilda Jones, Rhodfa Clwyd | £ 5.00 |
| Di enw | £15.00 |

**Diolch am eich cefnogaeth**

## Golygydd Mis Tachwedd: Morgan Cordiner

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Medi 15fed croesawyd Huw Vaughan Jones atom i oedfa'r pnawn. Balch oeddem hefyd oedd cael cwmni Nancy Jones. Bryan Roberts oedd wrth yr organ.Dymunwyd yn dda i Edna Williams yn dilyn triniaeth ar ei llaw.

Dydd Sul, Medi 22ain cynhaliwyd Oedfa'r Teulu gydag aelodau o'r Capel Mawr a'r Fron yn ymuno gyda ni. Hyfryd oedd gweld y capel yn llawn. Bu i blant yr Ysgol Sul a Rhian Cattell gymryd y rhannau arweiniol, gyda'r gweinidog, y Parch. Andras Iago yn gofalu am weddill y gwasanaeth. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

Dydd Sul olaf o fis Medi cafwyd Ysgol Sul i'r oedolion yn y bore.

Y Parch Bernard Thomas oedd cennad y prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr organ.

Prynhawn dydd Iau, Hydref 3ydd cynhaliwyd ein Cyfarfod Gweddi Ddiolchgarwch gyda John Alwyn Jones, Gwilym Williams a Rhianwen Williams yn cymryd rhan. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn.

Cawsom ymuno gyda chapeli'r dref yng Nghapel Lôn Swan yn yr hwyr. Pregethwyd gan y Parch. Brian Huw Jones, Prestatyn.

Bore Sul, Hydref 6ed agorwyd yr Ysgol Sul gan Carolyn Thomas. Hyfryd oedd cael croesawu Catrin Jones a'i wyres fach Ela atom.Y Parch. R.O.Jones oedd yn pregethu yn y prynhawn. Eleanor Roberts oedd yr organyddes.

Bore Sul, Hydref 13eg cawsom Oedfa Gymun yn y Capel Mawr dan arweiniad ein gweinidog, y Parch. Andras Iago.

Dydd Gwener, Hydref 11eg aelodau Capel Brwcws oedd yn gyfrifol am drefniadau'r Cinio Bro. Croesawyd ein gwraig wadd y Parch. Nesta Davies gan Carolyn Thomas. Cawsom hanes taith Nesta i'r America.

Nos Fercher, Hydref 16eg yng Nghymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws, cafwyd noson gyda Dawn Wilks, Llansannan. Bu'r chwiorydd yn brysur yn gwneud addurniadau Nadolig. Edna Williams fu'n gyfrifol am y rhannau dechreuol gyda Carolyn Thomas wrth yr offeryn. Talwyd y diolchiadau gan Lis Edwards. Paratowyd y baned gan Gwenda Jones ac Enid Thomas.

## Capel y Fron

Bore ddydd Sul, Medi 15fed, roedd Mr Richard Snelson, Llywydd y Mis, wedi trefnu Cyfarfod Gweddi gydag Eiri Jones, Ednyfed Williams a Gaynor Prew yn cymeryd rhan. Yr organyddes oedd Iona Edwards.

Fore Sul, Medi 29ain, roedd yr oedfa dan ofal y Parch Bernard Thomas, Trefnant. Roedd yr oedfa nos Sul, Hydref 6ed, yng nghwmni'r Parch R.O.Jones, Gaerwen, a'r organyddes oedd Eiri Jones. Rydym yn cydymdeimlo gyda Mrs Megan Williams, Groeswen sydd wedi colli ei merch, Mona. Roedd Mona yn un o blant yr Eglwys yma yn y Fron ond wedi cartrefnu yng Nghynwyd ger Corwen ers rhai blynyddoedd gyda'i theulu.

**Gwyl Ddiolchgarwch**. Roedd yr Ŵyl eleni wedi ei threfnu gan aelodau Capel Lôn Swan gyda'r Parch Brian Huw Jones, Prestatyn, yn pregethu. Fe gawswom Gyfarfod Gweddi yn y bore gyda Mrs Olwen Griffiths, Mrs Wendy Lloyd Jones a Mrs Gaynor Prew yn cymeryd rhan. Gaynor oedd wedi gwneud y trefniadau gydag Eiri Jones wrth yr organ.

Fe gawsom Ffair Hydref lwyddiannus eto fore dydd Sadwrn, Medi 28ain. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw fodd ac hefyd am ein cefnogi ar y bore. Yr oedd yr elw yn £473 a diolch i Wendy Lloyd Jones, ein trysorydd, am ei gwaith.



Marmalêd a jam cartref - mwy o luniau ar y cefn

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333


Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB McHale Massey Ferguson Fendt Pöttinger

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Braf oedd gweld criw mor dda o chwiorydd wedi dod ynghyd nos Fercher, Hydref 16eg ac yn mwynhau cwmni Dawn Wilks o Lansannan, sydd yn wraig brysur a thalentog iawn. Mae'n gweithio yn Ysgol Twm o'r Nant, yn rhoi gwersi piano ac y mae ganddi gwmni yn gwrthu ei gwaith celf o'r enw Dawn Bach. Fe wnaeth ddangos sut i wneud addurn ar hyfer y Nadolig ac roedd wedi dod â llond bwrdd o ddefnydd i'r chwiorydd droi eu llaw at greu addurn o'r cynllun eu hunain, ac mi roedd yna waith cywrain iawn. Roedd pawb wedi mwynhau gweithio efo'r glud, papur lliwgar, gemau o bob math ac yn falch o fynd â'u campweithiau adre.
Mrs Edna Williams oedd wedi paratoi y rhan ddefnosiynol i ddechrau'r cyfarfod a Mrs Carolyn Thomas wrth y piano. Roedd Mrs Enid Thomas a Mrs Gwenda Jones wedi gofalu a, baned a bisgedi ac fe wnaeth Mrs Liz Edwards dalu'r diolchiadau.
Mae amryw o'r chwiorydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod misoedd yr haf ac rydym yn cydymdeimlo â Gwenda Owens, Rhiannon Williams ac hefyd gyda Megan Williams sydd wedi gwynebu colled fawr o golli Mona wedi cystudd blin.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Cawsom gwmni Mr Huw Vaughan Jones o Gapel Lôn Swan ar gyfer yr oedfa hwyrol ar Fedi 15fed. Croesawyd ef gan Mr Stan Lyall, llywydd y mis. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr offeryn.
Y Parch. Bernard Thomas, Trefnant, oedd y cennad ar y nos Sul olaf o'r mis tra bo Mrs Catrin Warren yn gyfeilydd.
Ar Hydref 6ed y Parch. R. O.Jones, Gaerwen, oedd y cennad, a chroesawyd ef gan Mr Gwilym Luke Jones, llywydd y mis. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.
Tro'r Capel Mawr oedd hi ar Hydref 13eg i gynnal yr oedfa Gymun - dan arweiniad y Gweinidog - ar gyfer holl eglwysi Presbyteraidd tref Dinbych. Croesawyd ef gan Mr Gwilym Luke Jones, llywydd y mis, a Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.
Yn ystod yr oedfaon ym mis Hydref bu inni gydymdeimlo â Mrs Lilian Jones, Mrs Helen Owen a Mrs Sian Eifion Jones a'i theulu a gyfarfu â phrofedigaethau yn ddiweddar.

### Aelwyd Capel Mawr

Dorothy Rogers ddechreuodd cyfarfod mis Hydref drwy ddarllen gweddi i'r Hydref gan Gareth Maelor.
Buom yn meddwl am y rhai sydd ddim yn dda, ac am Helen Owen wedi colli brawd a Dorothy Rogers a Kitty Williams wedi colli brawd yng nghyfraith.
Croesawyd ein gŵr gwadd gan Helena Williams. Roedd Gwilym Davies wedi dod i siarad am ei waith coed, a daeth â llawer iawn o'i waith i ddangos i ni.Roedd wedi bod â llawer o ddiddordeb mewn gweithio gyda phren ers yn blentyn gyda'i daid a'i ewythr yn gwneud y gwaith. Llwyddodd i brynu peiriant turnio, ac mae'n teithio i Shotton bob wythnos i glwb turnio lle mae'n dysgu mwy am y grefft. Mae'n gweithio gyda gwahanol goed fel ywen, onnen, masarnen a llawer mwy. Soniodd am y pren bubinga sy'n ddrud iawn- math o rosewood Affricanaidd. Mae wedi gwneud amrywiaeth o bethau, pethau diddorol fel quaich sy'n gwpan gyda dwy handlen a ddefnyddir yn yr Alban ar achlysuron arbennig. Hefyd pob math o ffrwythau, dysglau, platiau, teganau a llawer mwy a'r cyfan yn werth eu gweld. Mae'n fedrus iawn ac wedi meistroli ei grefft ac yn amlwg yn cael llawer o bleser yn creu'r trysorau hyn.
Diolchwyd iddo gan Mair ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.

## Sioe Cyw yn dod â hwyl a hud y Nadolig i Lanelwy

Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir fel rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawen i blant ar hyd a lled Cymru.
Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Elin, Ben Dant ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i Lanelwy ar 5 Rhagfyr ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl!
Bydd dwy sioe yn cael eu cynnal yn Ysgol Glan Clwyd ar 5 Rhagfyr, ac mae'r sioeau yn dechrau am 11.00 y bore a 1.45 y prynhawn.
I brynu eich tocyn, dilynwch y ddolen ar wefan galericaernarfon.com
Mae'n bosibl archebu tocynnau ar gyfer grwpiau os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich ysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!
Bydd ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb sy'n cael ei wneud dros y ffôn neu ar-lein. Cysylltwch â Galeri ar 01286 685 222 os gewch unrhyw anawsterau.
Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn pob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!




"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

# Y Cymdeithasau

## Y Clwb Gosod Blodau

Croesawodd Felicity Cooksey bawb i'r cyfarfod. Ein siaradwraig oedd Wendy Davis o Langollen. Ei thema oedd 'Rhosod'. Roedd ei gwisg, ei het a'i hesgidiau wedi eu haddurno â rhosod. Pan lansiwyd NAFA, eu gobaith oedd defnyddio'r rhosyn fel arwyddlun, ond roedd yn rhaid cysylltu â Chymdeithas Rhosod America i gael yr hawl i wneud hynny. Buont yn llwyddiannus, ac erbyn hyn, y rhosyn yw eu harwyddlun.

Fe soniodd Felicity Cooksey am arfer y Rhufeiniaid yn gwasgaru petalau rhosod dros w'lau a soffas yn neuaddau'r palasau, ac yn ystod cyfnodau dathlu gwyliau arbennig, ar y strydoedd hefyd.

Achlysur arall oedd Rhyfel y Rhosynnau, pan aeth Tŷ Caerhirfryn (Lancaster), wrth hawlio gorsedd Lloegr o afael Tŷ Caerefrog (York) i ryfel, y naill gyda'i rosyn coch a'r llall gyda'i rosyn gwyn, fel emblem. Roedd gan Charles Rennie Mackintosh rosynnau ar wydr lliw, blychau tlysau a llawer o eitemau eraill. Yn yr un modd, roedd Boneddigesau Llangollen hefyd wedi gwirioni ar rosod ac 'roedd amrywiaeth mawr ohonynt yn eu gardd.

Defnyddir rhosod mewn olew a phersawr y dyddiau yma ac, ar Ddydd Santes Dwynwen, rhoddir rhosynnau i gariadon i ddathlu'r achlysur. Soniodd hefyd am yr arfer o addurno toeau mewn eglwysi a thai bonedd ac ati.

Darllenodd Wendy gerdd am y rhosyn a chysylltiad agos Percy Thrower ag un o'i hoff flodau – y rhosyn. Sgwrs ddifyr iawn.

Gwobrau'r raffl oedd
Gosodiad o rosod coch a gwyn
Bocs o siocled 'Roses'
Rhosod mewn potyn

Talwyd y diolchiadau gan Dorothy Roberts.

Bydd ein cyfarfod agored yn Neuadd y Dre, Dinbych, dydd Iau, 7ed o Dachwedd am 7.30pm. Yr arddangoswr fydd Nigel Whyles o Telford a'i thema fydd 'Ein hysbrydoli ar gyfer y Nadolig.'

Tâl mynediad - £10.

Croeso cynnes i bawb.

**Margherita Jones**

**RHYBUDD**

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**

wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**

wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

## Y Gymdeithas Gymraeg

Ar fore Sadwrn, Medi 21ain, cynhaliwyd ein bore coffi diweddaraf yn Ystrad Hall trwy garedigrwydd Gaynor Morgan Rees.Y criw arferol oedd yng ngofal y baned sef Rhianwen Williams, Edith Jones a Dilys Davies hefo Berwyn Roberts yn cadw llygad ar y parcio, Nerys Ann Roberts yn rhedeg y raffl, Mair Spencer hefo'r stondin nwyddau, Tom Williams (trysorydd) yn gofalu am yr arian a Dilwyn Jones (ysgrifennydd) wedi trefnu pethau.Cafwyd bore hwyliog a llwyddiannus iawn hefo £372 yn mynd i'r banc!Diolchwyd gan Mair Spencer (llywydd).

Ar nos Wener, Hydref 4ydd, cafwyd ein noson agoriadol tymor 2019-2020.Y siaradwr oedd Y Parch Ifor ap Gwilym, Abergele a'i destun oedd hanes a gwaith ei ddiweddar frawd, Gwynn ap Gwilym. Yn wir cafwyd tipyn o hanes Ifor ei hun a'r teulu hefyd a hynny yn gyfuniad perffaith o'r llon a'r lleddf. Cyflwynwyd a diolchwyd gan Eifion Lloyd Jones, cyfaill i Gwynn ac Ifor, ac yr oedd y baned yng ngofal Carys Williams, cyfnither Gwynn ac Ifor, a'i phriod, Erfyl Williams.Unwaith eto, noson dda ac agoriad gwych i'r tymor newydd.

**DILWYN JONES (ysg.)**









1. Borre braf yn yr ardd
2. Pawb yn mwynhau
3.Diolch i Gaynor m y croeso
4.Pwy sydd efo'r rhif lwcus?

# Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych



Yr hanesydd Robert(Bob) Morris o Benygroes yng Ngwynedd oedd y gŵr gwadd yn ein noson agoriadol yng Nghanolfan y Gymuned, Eirianfa. Testun ei sgwrs oedd ‘Bywyd Syr Thomas Artemus Jones.’

Ganed Thomas Artemus Jones yn 22 Lôn Abram, Ninbych yn 1871, y chweched mab i Thomas Jones,saer maen. Wedi gadael yr ysgol yn 11 oed, dechreuodd weithio ar stondin bapurau newydd yng ngorsaf drenau’r dref. Yno y dechreuodd ddarllen yn helaeth a dysgu llaw fer ac yn 1886 cafodd swydd fel gohebydd ifanc gyda’r Denbighshire Free Press a bu’n gohebu ar Ryfel y Degwm (1888-89).

Gadawodd tref Dinbych yn 1889 i weithio ar bapurau newydd yn Swydd Henffordd, East Anglia a Manceinion ac yn 1896 ymunodd â staff Seneddol y Daily Telegraph yn Stryd y Fflyd yn Llundain.Roedd wedi cyrraedd y brig fel newyddiadurwr.

Yna dechreuodd astudio’r Gyfraith mewn dosbarth nos cyn mynd yn fyfyriwr yn y Middle Bar yn Llundain a llwyddo iddod yn fargyfreithiwr yn 1901 ac ymuno â chylchdaith Gogledd Cymru’r flwyddyn ganlynol. Ymysg yr achosion nodedig roedd yn rhan ohonynt yng Ngogledd Cymru oeddachos enllib Arglwydd Penrhyn yn erbyn W.J.Parry, Coetmor, Bethesda oedd yn arweinydd Undeb y Chwarelwyr yn ystod Streic Fawr y Penrhyn.

Achos arall adnabyddus oedd yr achos yn erbyn John Jones sef ’Coch Bach y Bala.’Cafodd ei ddedfrydu i garchar am dorri i mewn i dŷ ond dihangodd o garchar Rhuthun a chael ei saethu i farwolaeth ar Stad Nantclwyd ac yntau’n 60 oed ar ôl treulio hanner ei fywyd dan glo.

Yn 1909 daeth ag achos o enllib yn erbyn perchnogion y Sunday Chronicle am ei enllibio yn eu papur newydd.Enillodd yr achos a aeth i Dy’r Arglwyddi. Mae’r nodyn,”Dychmygol yw cymeriadau a digwyddiadau’r nofel hon a chyd-ddigwyddiad llwyr yw unrhyw debygrwydd rhyngddynt â phobl neu ddigwyddiadau go iawn,” yn deillio o’r achos llys hwn.

Cymerodd Thomas Artemus Jones ran hefyd yn achos Syr Roger Casement am deyrnfradwriaeth. Ef oedd



un o arweinyddion Gwrthryfel y Pasg yn 1916.Fe’i cafwyd yn euog ac fe grogwyd ef yn Pentonville yn 1916.

Yn 1919 fe’i penodwyd yn K.C. (King’s Counsellor) ac yn 1928 fe’i penodwyd i gynrychioli Prydain ar y Comisiwn Hawliau (Claims Commission) yn sgîl cythrwfl ym Mecsico. Yn 1931 cafodd ei urddo’n farchog am ei wasanaeth yno.

Priododd Mildred May David yn 1927 ac yn 1930 dychwelodd i Gymrupan apwyntiwyd ef yn Farnwr yn y Llysoedd Sirol yng Ngogledd Cymru a bu yn y swydd tan 1942.

Ceisiodd Syr Artemus Jones ddiddymu cymal 17 o Ddeddf Uno 1536 na roddai unrhyw statws cyfreithiol i’r iaith Gymraeg ac yn dilyn deiseb ledled y wlad, fe ddiddymwyd y cymal gan Ddeddf y Llysoedd Cymreig yn 1942 a roddai’r hawl i ddefnyddio’r Gymraeg mewn llysoedd barn.

Ysrifennodd lythyr i Winston Churchill yn galw am Ysgrifennydd Gwladol i Gymru.

Bu’n Llywydd y Dydd yn yr Eistddfod Genedlaetholyn Ninbych yn 1939.


Hefyd yn ei swydd fel Barnwr cyhoeddodd o’r Fainc na fuasai’n carcharu methdalwyr na allai dalu eu dyledion a gwrthwynebai’r cwmnïau hynny a gynigiai gytundebau HP.

Symudodd i fyw i Fangor a bu farw yn 72 oed yn 1943.

Llywyddwyd einnoson agoriadolgan ein Cadeirydd, Richard Snelson ac ef a dalodd y diolchiadau i Bob Morris am ddarlith mor ddifyr a gadwodd ein diddordeb o’r dechrau i’r diwedd. Noson i’w chofio am un o ddynion mwyaf Dinbych.

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg



# MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Mae Cangen Dinbych o Ferched y Wawr wedi cychwyn ers dechrau Medi ac mae'r arlwy sydd wedi ei baratoi ar ein cyfer yn amrywiol iawn eto eleni.

Ddechrau Medi, cawsom gyfarfod ail-ddechrau o dan lywyddiaeth Angharad Rhys, gyda Cheryl Williams yn ysgrifennydd a Mari Roberts yn drysorydd. Llongyfarchwyd Ann Jones Evans a Myfanwy Williams a Mair Spencer ar eu penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Diolchodd Angharad i bawb oedd wedi helpu yn Sioe Dinbych a Fflint, a llongyfarchwyd Nia Rowlands ar ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Radi Thomas yn y Sioe Fawr. Croesawyd nifer o aelodau newydd, a gobeithio bydd rhywbeth at ddant pawb ymhob cyfarfod.

Sonwyd am brosiect y Llywydd Cenedlaethol am eleni, sef casglu sbwriel. Mae nifer o'n haelodau wedi bod allan yn y cylch yn casglu sbwriel yn barod. Daeth Magi â'r tlws ennillodd yn yr Ŵyl Genedlaethol efo hi i ni gael ei weld.

Ein gwraiggwadd oedd Elin Angharad Davies o Ysbyty Ifan a ddaeth atom i siarad am ei rhan hi yn y Prosiect Telynau Llanrwst i ddathlu Treftadaeth Llanrwst, a oedd yn rhan fawr o'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn ddiweddar.Cychwynnodd y prosiect dros flwyddyn yn ôl ac mae Elin wedi ymchwilio i nifer o wneuthurwyr telynau o ardal Llanrwst gan gychwyn yn y dechrau hefo John Richard, prif wneuthurwr telynau (1711 – 1789). Rhoddodd Elin flas o'r gwahanol geinciau ar y delyn deires roedd wedi dod hefo hi.

Enillydd y raffl oedd Helena Williams.

Ar Hydref 2ail, croesawodd Angharad ni unwaith eto, ac fe groesawodd aelod newydd arall i'n plith. Llongyfarchwyd Buddug ar ddod yn nain a dymunwyd y gorau i Mair Spencer ar ôl ei hanffawd o dorri ei braich. Cyhoeddwyd fod y Cwis Cenedlaethol yn y Clwb Golff eto eleni a gobeithiwn gael tîm yno yn cystadlu. Croesawodd Nerys Davies ein gwraig wadd, sef Eirian Lloyd Jones o Rhuthun. Fferyllydd yw Eirian wrth ei galwedigaeth, ond mae'n berchen ar siop fwyd cyflawn yn Rhuthun hefyd. Cawsom sgwrs ddiddorol ar fwyta'n iach a sut i gadw'n cyrff yn iach.

Dywedodd fod angen nifer o wahanol fitaminau i gadw'r corff yn iach a chryf a bod hyn ar gael yn naturiol mewn nifer wahanol fwydydd, ac os oes angen *'boost'* arnoch, felly ichi gymryd y tabledi fitaminau yn ychwanegol. Enillydd y raffl oedd Beti Jones.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Dachwedd 4ydd, pryd y byddwn yn croesawu Noriko Vernon atom. Croeso i aelodau newydd.

**Annwen Roberts**



Magi gyda'i thlws



Elin Angharad gyda'r delyn deires

# Amgueddfa Dinbych

Er gwaethaf y tywydd drwg yn ystod penwythnos Drysau Agored cafwyd dros 70 o ymwelwyr i'r Amgueddfa. Mae'r arddangosfeydd gyda chysylltiadau lleol a llawer o'r eitemau yn cael eu harddangos am y tro cyntaf, fel hetiau John Thomas a'i Fab, Stryd Fawr, Dinbych. Casgliad arall diddorol yw medalau Percy Ellis a'u derbyniodd am ei wasanaeth gyda'r 'Russian Convoy' yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Yn ddiweddar croesawyd tiwtoriaid Myfyrwyr Nyrsio Seiciatrig Prifysgol Bangor i gyflwyniad gan Clwyd Wynne am hanes yr Ysbyty Meddwl. Cawsom hefyd ymweliad gan rai o blant Ysgol Ysbyty Ifan sydd ar hyn o bryd yn astudio Rhyfel y Degwm ac eisiau darganfod mwy am fywyd Thomas Gee.

Mae'r Amgueddfa ar agor prynhawn Llun ac Iau, 2 tan 4 o'r gloch. Croeso cynnes i chwi alw i'n gweld.

**Dafydd Lloyd Jones**



Percy Ellis



Hetiau John Thomas a'i Fab



Medalau Percy Ellis

## Llyfrgell Dinbych

**Amser Rhigwm Dechrau Da**

Mae Amser Rhigwm yn digwydd bob bore Mercher yma yn Llyfrgell Dinbych, plant 3 oed ac iau am 10.00y.b. ac yna sesiwn i'r babanod dan flwydd oed am 11.00y. Nod y sesiynau hyn ydi gwneud llyfrau'n hwyl i fabanod a phlant, drwy ddefnyddio caneuon, rhigymau a symudiad, i ddatblygu sgiliau iaith a chymdeithasu. Mae rhieni hefyd yn elwa o'r cyfle i wneud ffrindiau newydd ac i ddod i sesiwn groesawgar a chymdeithasol. Mae'r sesiynau yn rhad ac am ddim. Dilynwch ein tudalen Facebook i gael y newyddion diweddaraf - Dechrau Da Sir Ddinbych.

**Pwynt Siarad – Bob bore Mercher 9.30-1.00**

Mae 'Pwyntiau Siarad' yn cynnig ffyrdd gwahanol i bobl ganfod pa fath o gymorth gall fod ar gael iddyn nhw yn eu cymunedau, er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles. Pobl leol o ystod eang o wasanaethau lleol ar gael mewn lleoliadau cymunedol yn cynnig cyngor a gwybodaeth ar ba gymorth sydd ar gael.

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod angen cymorth gyda bywyd o ddydd i ddydd, gan gynnwys gofalwyr, galwch i mewn i'ch Pwynt Siarad ymaneu ffoniwch y Pwynt Mynediad Cyntaf ar 0300 456 1000 i drefnu apwyntiad.

**Sesiwn Galw-Mewn Gwasanaeth Gwirfoddolwyr Cymorth Clyw**

Os ydych angen batris newydd, cymorth gyda'ch teclyn clyw a chyngoryna dyma'r lle i ddod, yr 2il ddydd Mawrth ymhob mis 10-12y.b.

**Clwb Darllen Sgwrs a Sangria**

Criw o oedolion sy'n cyfarfod i drafod llyfrau Cymraeg. Byddwn yn cyfarfod yma yn y Llyfrgell bob yn ail fis lle bydd trafodaeth a sgwrsio'n mynd ymlaen am y llyfrau a ddarllenwyd ddiwethaf. Cyfle i ymlacio ymysg criw brwdfrydig o ddarllenwyr Cymraeg. Cysylltwch â'r Llyfrgell am fanylion 01745 816313 / llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk.

**Clwb Cwtsh+**

Cwrs chwe wythnos am ddim ar Fore Mawrth, 9.30-11.00y.b yn Llyfrgell Dinbychsydd wedi ei anelu at ddysgwyr newydd sydd am helpu eu plant i siarad Cymraeg yn y cartref. Mae Clwb Cwtsh+ yn gwrs dilyniant ar gyfer unrhyw rieni sydd wedi mynychu'r cwrs blasu Clwb Cwtsh gyda'r Mudiad Meithrin neu yn gwrs delfrydol i unryw riant sydd â'r gobaith o ddechrau dysgu Cymraeg. Rydym yn falch iawn o fedru cyd-weithio gyda'r Mudiad i ddarparu'r cyfle i rieni i ddatblygu eu Cymraeg mewn awyrgylch hollol ymlaciol a llawn hwyl gyda'u rhai bach. Mae pob sesiwn yn awr a hanner o ddysgu geirfa, chwarae gemau a chanu. Ar hyn o bryd rydym yn Llyfrgell Dinbych ar fore Mawrth o 9:30-11:00y.b a bydd croeso mawr yn eich disgwyl! Am fwy o wybodaeth cysylltwch â emma.burton@cambria.ac.uk

**Pas Bws** – Newidiadau i gardiau teithio consesiynol

Os oes gennych gerdyn teithio gwyrdd bydd angen i chi wneud cais am gerdyn newydd gan Drafnidiaeth Cymru. Derbynnir y cardiau gwyrdd tan Rhagfyr 31 2019. Gallwn gynnig cymorth yn y Llyfrgell a Siop Un Alwad Dinbych i adnewyddu eich pas bws.

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 818849**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DYFFRYN CONWY

Yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy yn Llanrwst, braint oedd cyfarfod Sally, perthynas imi, am y tro cyntaf erioed. I ddeud y gwir, nid oeddwn yn gwybod am fodolaeth Sally tan yn ddiweddar ac mae'r diolch i Carys Glaberston (Carys Hollywell gynt ac o Ddinbych yn wreiddiol) ac i'r Bigwn.Diolch i'r ddau!!

Sut ydan ni'n perthyn? Wel, roedd taid Sally sef R. Silyn Roberts (1871-1930), Sosialydd, Gweinidog, Bardd a Sefydlydd Rhanbarth Gogledd Cymru o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (y W.E.A.) yn hanner brawd i fy hen daid, John Roberts oedd yn deiliwr. Roedd tua 20 mlynedd rhyngddynt! Hefyd, roedd Ellen, mam Mathonwy Hughes, yn chwaer i R.Silyn Roberts. Felly roedd Mathonwy yn nai iddo. Dyffryn Nantlle yn yr hen Sir Gaernarfon oedd bro mebyd R. Silyn Roberts.

Daeth Sally a chriw o ffrindiau sy'n ddysgwyr o Brighton i fwynhau'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst a braf oedd gwrando arnynt yn siarad Cymraeg mor hyderus a brwdfrydig.

Roedd Sally wrth ei bodd yn y twmpath ac yn clera gyda'i chonsertina yn Tŷ Gwerin, yn mwynhau'r corau a'r prif seremonïau yn y pafiliwn a bu'n cerdded gyda Chymdeithas Edward Llwyd ymysg gwneud llawer mwy o bethau eraill yn ystod yr wythnos!! Mae hithau, Sally, yn ddysgwraig hefyd ac yn defnyddio saysomethinginwelsh.com i ddysgu Cymraeg fel ei ffrindiau. Daw Carys â phawb at ei gilydd bob nos Lun mewn tafarn yn Brighton ar gyfer sgwrsio rhydd ac unwaith y mis, maent yn cyfarfod yn nhai ei gilydd a phawb yn dod â bwyd i'w rannu.

Ond uchafbwynt personol Sally a fi oedd clywed mwy amgyfraniad R. Silyn Roberts a'i wraig, Mary Silyn Roberts mewn cyflwyniad gan Gwmni Theatr Bara Caws ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes yr eisteddfod. Cafodd Mary Silyn Roberts, née Parry (1871-1972) ei magu yn Llundain.Roedd yn Sosialydd, yn Addysgydd, yn flaenllaw gyda Mudiad Addysg y Gweithwyr (y W.E.A.), a thrwy'r Mudiad Dirwest daeth yn rhan o ymgyrch Hedd nid Cledd, a bu'n chwarae rhan allweddol yn nhrefnu cymal Gorymdaith Heddwch o Benygroes iLundain gan annerch y dorf yn Hyde Park yn Gymraeg yn 1926.Bu'n flaenllaw hefyd gydag Apêl Heddwch Merched Cymru 1924.Dyma'ddeinamo o ddynes.'

Teimlais falchder yn y teulu wrth wrando ar y cyflwyniad a gwneud hynny yng nghwmni Sally a hithau'n wyres i Silyn a Mary. Eisteddfod i'w chofio'n wir am sawl rheswm!!!

**Erfyl Williams**



Sally a fi yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni

# Diwrnod Shwmai Su'mae

Ar ddydd Mawrth y 15fed roedd Cymru'n dathlu Diwrnod Shwmai Su'mae, sef diwrnod sydd yn anelu at ddathlu'r iaith Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth ohono o fewn ysgolion, cymdeithasau, sefydliadau a busnesau ar draws y wlad.

Dathlwyd y Diwrnod Shwmai Su'mae cyntaf ar Hydref 15ed, 2013 i hybu'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda Shwmai neu Su'mae! Nôd y diwrnod yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – yn siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil ynglŷn â'ch Cymraeg. Mae'r diwrnod bellach yn cael ei ddathlu bob blwyddyn ar y 15fed o Hydref.

Lansiodd Menter Iaith Sir Ddinbych ymgyrch i ddathlu'r diwrnod o fewn Sir Ddinbych drwy gael yr artistiaid Fflur Roberts ac Abbie Parry i ddylunio posteri ar gyfer y diwrnod, ac fe'u dosbarthwyd ar hyd a lled y sir i gyd, gan gynnwys Dinbych. Fe arddangosodd nifer o fusnesau'r dref y posteri gan roi tro ar ddechrau eu sgyrsiau gyda 'Su'mae' am y diwrnod. Cafwyd ymweliad gan Magi Ann oedd wedi mwynhau bod yn rhan o'r dathliadau tu allan i'r llyfrgell ar ben y dref.

**Menter Iaith Dinbych**

Lluniau ar dudalen blaen y cefn


Cynghorydd

cyngor sir ddinbych

Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

S: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk


## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

## Colofn y Dysgwyr

Yn ystod wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg yn ddiweddar oedd yn cynnwys Diwrnod Sumae Shwmae, braf oedd derbyn gwahoddiad i'r Ganolfan Iaith neu Popeth Cymraeg yn y dref gan Nerys Ann Roberts, un o'r tiwtoriaid, i gyfarfod rhai o'r dysgwyr sydd newydd ddechrau ar eu cwrs.

Pan gyrhaeddais roedd y criw brwdfrydig o thua dwsin ar ganol rhestru rhai o'u hoff eiriau yn y Gymraeg gyda 'bendigedig, cwtsh, gwasanaeth a bechod!' ymysg rhai o'r atebion.

Yna cefais sgwrs fer gyda rhai o'r dysgwyr.

Sbaenwr amlieithog yw **Diego** ac mae'n byw yn Llanelwy.

Tu allan i'r dosbarth Cymraeg mae Diego yn cael cyfle i ymarfer yr iaith yn y Clwb Siarad yn y Gadeirlan ac mae'n aelod o Glwb Gwyddbwyll Treffynnon lle mae sawl Cymro Cymraeg – mwy o gyfle iddo ddefnyddio'i Gymraeg. Gwych!

Mae **James King** neu'r **Brenin Iago** fel y'i gelwir yn y dosbarth, yn defnyddio'i Gymraeg efo'r cwsmeriaid yn siop y teulu yn Rhuthun lle mae'n gweithio. Mae'n siarad Cymraeg efo'i ffrindiau ac yn nhre Rhuthun. Gwych eto!

Mae **Jill** o Ddiserth yn gweithio i Gyngor Sir y Fflint yn Ewloe. Tu allan i'r dosbarth mae'n gwrando ar Radio Cymru a gwylio S4C i wella'i Chymraeg.Mae hefyd yn darllen llyfrau Cymraeg a mynd i 'Coffi a Sgwrs' yn y gwaith. Bendigedig!

Daw **Gwyn** i'r dosbarth o Stoke gan aros efo ffrind dros nos. Mae'n awyddus i siarad Cymraeg efo'i ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. Adra yn Stoke mae'n defnyddio duolingo i ddysgu'r iaith a gwylio S4C. Mae wrth ei bodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.Hoffai inni neilltuo tudalen i'r Dysgwyr bob mis yn y Bigwn (gair i gall!) a chynnwys croeseiriau iddynt gan ei bod yn mwynhau croeseiriau gan gynnwys croeseiriau cryptig! Da iawn.

Diolch am y gwahoddiad ac am yr ymateb.

**(gol.)**

## Pwyllgor Apêl Dinbych Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020

Mae dipyn o ffordd i fynd eto cyn cyrraedd targed y dref sef £60,000. Dyma rai o'r digwyddiadau sydd i ddod dros y misoedd nesaf:-

**Noson yng Nghwmni Dylan Cernyw, Tach 12 yn y Clwb Golff, Dinbych.**

**Bore gyda Deian a Loli, Tach. 16 yn Ysgol Twm o'r Nant.**

**Gig Bryn Fôn, Ion. 25 yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

Cadwch olwg am bosteri a hysbysebion gyda rhagor o fanylion neu dilynwch ni ar Facebook a Twitter ac Instagram:

Facebook – Pwyllgor Apêl Dinbych Eisteddfod 2020 Denbigh Appeal Group

Twitter - @PADURDD2020

Instagram – PADURDD2020

## PROSIECT CYMUNEDAU DWYIEITHOG SIR DDINBYCH

Fel rhan o'r nôd i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2050, mae'n hanfodol bwysig fod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael y cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg yn naturiol o fewn eu cymunedau. Bwriad prosiect ***Cymunedau Dwyieithog Sir Ddinbych*** gan Menter Iaith Sir Ddinbych yw i roi'r cyfleoedd hynny i bobl yn eu cymuned. Mae swyddogion y prosiect, Nia Parry a Buddug Davies, yn ymgymryd â'r dasg hon, ac maent wedi bod yn cydweithio mewn cymunedau ledled y sir i gynnal gweithgareddau sy'n berthnasol i'r cymunedau hynny.

Mae cyfres o sesiynau Paned a Sgwrs bellach wedi'u cynllunio, a chafwyd y cyntaf yn y Ganolfan Iaith ym Mhwll y Grawys, Dinbych ddiwedd Gorffennaf. Cynhelir sesiwn arall yn y Ganolfan Iaith **ddydd Mercher 13 Tachwedd**, gyda'r bwriad o ddod â dysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl at ei gilydd er mwyn sefydlu arferion iaith gadarnhaol a helpu datblygu hyder dysgwyr.

Os ydych yn meddwl y gallwch sbario awr neu ddwy i annog a chefnogi dysgwyr, trwy ddod draw i gael sgwrs dros baned ar 13 Tachwedd, cysylltwch â Nia neu Buddug ar 01745 812822. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Pawb yn sgwrsio yn Gymraeg




# Cymanfa Werin yn Ninbych i ddathlu canmlwyddiant geni Meredydd Evans



Gan y byddai'r ymgyrchydd a'r canwr gwerin Meredydd Evans yn gant oed eleni pe byddai wedi byw, mae Ymddiriedolaeth William Salesbury yn trefnu cyfres o gymanfaoedd Codi'r To - cymanfaoedd gwerin anffurfiol - ledled Cymru.

Yn dilyn sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, fe sefydlodd Merêd Ymddiriedolaeth William Salesbury i gynnig ysgoloriaethau i gefnogi myfyrwyr sy'n dilyn eu cyrsiau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r Coleg.
Mae'r gronfa'n cynnig cefnogaeth hael i nifer o fyfyrwyr yn flynyddol ac mae angen ymdrechu'n gyson i sicrhau bod arian ar gael yn y gronfa. Yn gwbl nodweddiadol ohono, fe weithiodd Merêd yn ddiflino i godi arian i'r gronfa hon i gefnogi cenhedlaeth newydd o bobl ifanc. Felly dyma dynnu'r pethau hyn ynghyd - dathlu pen-blwydd Merêd trwy ddathlu ei hoffter o ganu gwerin a thrwy hynny godi arian at yr elusen oedd agosaf at ei galon.
Bydd nosweithiau yn cael eu cynnal yn Y Bala, Tanygrisiau, Dinbych, Pwllheli, Llanegryn, Caernarfon, Aberystwyth, Llanerfyl, Crymych, Pontypridd a Chasnewydd.
Leah Owen fydd yn arwain Cymanfa Werin Dinbych yn Theatr Twm o'r Nant am 7.30 nos Fercher, 27 Tachwedd. Canwr gwerin gwâdd y noson fydd y diddanwr ifanc poblogaidd, Gwilym Bowen Rhys.
Bydd y tâl o £5 yn unig wrth y drws yn gyfraniad at Gronfa William Salesbury er mwyn cefnogi myfyrwyr Cymraeg a gwireddu breuddwyd Merêd.




# YN Y GWAED

Wrth yrru o Gaer i Ddinbych i weld fy rhieni y noson o'r blaen, fe ddaeth yna gwestiwn pwysig i'm meddwl sef faint mae ein cymeriad yn dibynnu ar y DNA, a faint ar ddylanwad y rhai o'n cwmpas? Y rheswm am feddwl fel hyn oedd car – yn benodol y Mercedes Benz roeddwn yn ei yrru ar y pryd, diolch i garedigrwydd Avis. Dyma'r trydydd waith i fi rentu'r model arbennig yma a'r trydydd gwaith i mi deimlo siom enfawr, ddim yn unig am y peiriant swnllyd a digymeriad a'r cyfrifiadur cymleth sydd angen PhD i'w ddeall, ond hefyd am y triongl bach coch oedd yn wincio arnaf o dro i dro pan oeddwn yn llai na chwarter modfedd yn rhy agos at y cerbyd o'm blaen nag oedd y car yn meddwl oedd yn ddiogel - er bod digon o le i fws coch Llundain ddod rhyngom.
Yn y bôn, y broblem sydd gen i, ydi fod fy nghar arferol yn gymaint mwy pleserus, er gwaetha'r ffaith ei fod yn debyg o gostio llai. Mae'n edrych yn well, mae'n gyrru'n well, ac mae'n rhoi gwên ar fy ngwyneb bob tro dwi'n gadael y tŷ, hyd yn oed ar fore gwlyb a thywyll. Does dim angen hyd yn oed y radio, gan fod y miwsig yn dod o'r peiriant. Mae'n gwneud i mi deimlo'n fyw. A dim fi ydi'r unig un sy'n meddwl fel hyn: roedd yr enwog Henry Ford ei hun â chymaint o barch tuag ato i dynnu ei het bob tro roedd yn gweld un yn mynd heibio. Pa gar ydio? Wel, Alfa Romeo wrth gwrs.
A dyma fi'n dod yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol. Yn fwy manwl, pam fy mod i wedi gweld y goleuni a phawb arall yn ymddangos mor ddall? Wedi'r cyfan, mae Mercedes Benz yn gwerthu mwy o geir drwy'r byd mewn pythefnos na mae Alfa Romeo yn ei wneud mewn blwyddyn. Ai fi sy'n rhyfedd, neu pawb arall sy'n gwneud camgymeriad? Mae'n wir fod fy niddordeb mewn ceir yn rhedeg yn y ngwaed, o fy nhaid, i fy nhad ag erbyn hyn, fy nai, i fi allu gwerthfawrogi yn llawn y gorau o beirianneg Eidaleg.
Wedi dweud hynny, fi oedd y cyntaf yn y teulu i gael Alfa Romeo. Yn yr un modd, os mai fy ngwaith fel peiriannydd aeth a fi i'r Eidal yn y lle cyntaf, roedd mwynhau gweld cymaint ohonynt o gwmpas yn un rheswm i mi barhau i fyw yno am dros chwarter canrif erbyn hyn. Ag eto, mae yna gymaint o Eidalwyr yn gyrru Mercedes nag Alfa. Pam? Oherwydd ei fod yn cael ei gyfri yn fwy ffasiynol mwy na thebyg?
Roedd y daith yn rhy fyr imi ddod i ganlyniad pendant y noson honno os mai yn y gwaed neu yr amgylchedd rydym yn byw ynddi sy'n dylanwadu fwyaf ar ein cymeriad, ond yn sicr, y tro nesaf rydych yn meddwl prynu Mercedes Benz, ewch draw yn gyntaf i drio'r Alfa Romeo. Fe fydd yn weledigaeth!
**Dewi Rogers**

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF National Independent Funeral Directors

## Atebion Hydref 2019

**Atebion Hydref 2019**


**Ar Draws :**

1. Asgwrn
4. Cymru
8. Llandudno
9. Dyfrgi
10. Pardduo
12. Gwersyllt
13. Neon
14. Anariannog
16. Rhufeiniaid
18. Gogr
19. Hirsgwar
21. Tenant
22. Adenydd
23. Seicoleg
25. Aogl
26. Mwyara

**I Lawr :**

1. Adda
2. Gododdin
3. Rodeo
4. Cadoediad
5. Mefusen
6. Ungell
7. Lloegr a Llanrwst
11. Anelu
14. Adnewyddol
15. Organ
17. Ensynio
18. Gondola
20. India
21. Teirw
24. Efa

## CROESAIR TACHWEDD 2019




**Ar Draws :**

5. Mi fuon ni'n byw yn y sir hon ar un adeg....
7. ....ond yma da ni'n byw erbyn hyn (3,6)
10. Nid lluosog
11. Y Ffrangeg fyddai Wiliam yn ei siarad
12. Pryd awyr agored
13. .... Preminger, cyfarwyddwr ffilmiau
16. Ymyrryd
18. Delw
21. Gareth sy'n chwarae i Real Madrid
23. O wahanol ffynonellau
26. David Jones yw AS ......... 5ad
28. Reagan neu McDonald
29. Tynerwch
30. "Hen Wlad fy Nhadau" yw ein un ni

**I Lawr :**

1. Cyfrifiadur cludadwy
2. Gwneud yn harddach
3. .... Karenina, nofel gan Tolstoy
4. Cymysgedd ar gyfer crempog
6. Brwsh â choes hir 8. Mis cynta'r flwyddyn
9. Math o siwgr
14. g25 i lawr
15. Sancteiddrwydd
17. Adeiladwr llong
19. Esbonio
20. Casgliad o gelloedd
22. Gwywo
24. g 25 i lawr
25. a 24 a 14 i lawr, tair afon, un sir
27. O dan eich traed mae hwn i fod












# Ysgol Glan Clwyd

Mae nifer o ddigwyddiadau wedi bod yn ystod y mis diwetha yma, gan gynnwys ein Noson Agored ar gyfer disgyblion bl 5 a 6 ysgolion y cylch. Cafwyd noson brysur a hwyliog, gyda'r adrannau i gyd wedi paratoi gweithgareddau amrywiol i ddangos be sy'n cael ei gynnig yma iddynt. Roedd pob adran yn arddangos rhywbeth at ddant pawb a'r Adran Wyddoniaeth yn cynnal nifer o arbrofion i ddenu gwyddonwyr y dyfodol.................gan gynnwys cael llo bach 5 wythnos oed.

**Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020**

Bu nifer o'n disgyblion yn gorymdeithio trwy Brestatyn ar ddiwrnod Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2020 ar Hydref 5ed. Buont yn diddanu'r gynulleidfa ar lwyfan y maes yn y prynhawn hefyd.

**Pêl-droed merched.** Mae cynrychiolwyr tîm pêl-droed Merched Ysgol Glan Clwyd wedi bod yn lwcus iawn o gael cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth pêl-droed y 5 gwlad. Roedd y gystadleuaeth ar gyfer tîm merched blwyddyn 8 a 9 yr ysgol, a fu'n llwyddiannus y llynedd yn ennill cystadleuaeth i holl Ysgolion Cymru. Cawsant eu gwahodd yn dilyn y llwyddiant i fynychu'r twrnamaint 5 gwlad, a gafodd ei gynnal yn Lilleshall ym mis Hydref. O ganlyniad, cawsant y profiad o chwarae yn erbyn timau Lloegr ac Iwerddon a oedd yn fuddugol yn yr un gystadleuaeth yn eu gwlad hwy. Fe berfformiodd y merched yn wych, a gyda digon o angerdd yn erbyn timau anodd iawn. Rydym yn cystadlu unwaith eto eleni am fuddugoliaeth yn y gystadleuaeth i ysgolion Cymru. Cafodd Cadi Doran ei choroni'n chwaraewraig gorau trwy Brydain yn y twrnament a chael sgwrs ar Radio Cymru a Lleucu'n cael chwaraewraig mwyaf cyson y twrnamaint.

**Mae clybiau chwaraeon 5x60** yn ffynu y tymor hwn, gyda nifer ohonynt yn llawn dros amser cinio ac ar ol ysgol! O sesiynau SC2 Tag yn y Rhyl, Badminton amser cinio i Tenis Bwrdd ar ôl ysgol. Mae croeso i bawb o unrhyw safon i ddod i drio chwaraeon newydd, cymdeithasu a chael hwyl! Am fwy o wybodaeth, neu os ydach chi eisiau'r amserlen, ebostiwch aled.w.williams@ysgolglanclwyd.co.uk

**Newyddion o'r Adran Addysg Gorfforol:**

Ennill 8 allan o 8 gêm yn y rownd gyntaf o Gwpan Cymru, 6 allan o 8 gêm yn rownd 2 a chwarae oddi cartref rwan.

Tîm rygbi dan 13 yn dod yn bencampwyr rygbi Sir Ddinbych.

4 myfyriwr o'r 6ed dosbarth yn dod yn arweinwyr rygbi (ac wedi helpu i drefnu Gŵyl Rygbi i 100 o ddisgyblion cynradd ein teulu ni)

Llio Bryn Jones bl 13 yn cael ei dewis i fod yn Llysgennad Platinum Cymru.

2 o'n cyn-ddisgyblion yn cwblhau eu gwobr Dug Caeredin Aur ac yn cael gwahoddiad i Palas Kensington i dderbyn eu gwobr.

5 disgybl o bl 10 wedi cynrychioli Dwyrain RGC sef Ioan Jones, Efan Jones, Jack Walsh, Rhydian Williams ac Elias Mars-Jones yn erbyn ysgolion Abertawe (yn Ystalafera) yn ddiweddar.

3 disgybl bl 11 wedi cynrychioli RGC dan 16 Gogledd Cymru – Efan Edwards, Osian Burt a Paddy Nelson

7 o ferched bl 11 a 12 yn chwarae i dîm y Cigfrain – tîm rygbi Sir Ddinbych.

Llongyfarchiadau i Matthew Senior yn cynrychioli tîm Pêl-droed Cymru dan 15.

Llongyfarchiadau mawr i Josie Smith sydd wedi cael ei dewis i chwarae i dîm pêl-droed merched Cymru dan 19 yng nghystadleuaeth rowndiau rhagbrofol Euro EUFA yn Belfast, Gogledd Iwerddon. Cynhaliwyd y gystadleuaeth rhwng Medi 30ain a Hydref 9fed.

6 o ferched yn cael eu dewis i dîm pel-rwyd Sir Ddinbych dan 14 a 3 i'r tîm dan 16.

Ellis Longworth wedi cynrychioli tîm pêl-droed Dwyrain Cymru mewn Gala Rhyng-daleithiol Prydain, gan ennill y gynghrair hefo'r tîm.

Ben Senior a Rhys Lloyd wedi cael eu dewis i fod yn nhîm dan 13 pêl-droed Sir Ddinbych.



**Llysgenhadon Chwaraeon AUR newydd!**

Llongyfarchiadau i Beth a Leah o flwyddyn 12, yn cael eu hethol fel Llysgenhadon Chwaraeon Aur newydd yr Ysgol a Sir Ddinbych. Byddent yn ymuno â 3 Aur arall newydd o'r Sir i hel syniadau a datblygu chwaraeon yn yr ysgolion. Byddent yn ymuno hefo Llio a Llinos o flwyddyn 13 sydd eisoes yn Llysgenhadon Aur ers y flwyddyn diwethaf.





Rhai o ddisgyblion bl 11 hefo cynrychiolydd o'r '*Teenage Cancer Trust*'

**Trefnodd Blwyddyn 11** ddiwrnod o weithgareddau yn ogystal â gwisgo dillad eu hunain ym Mis Gorffennaf i gasglu arian tuag at elusen 'Teenage Cancer Trust.' Roedd y disgyblion wedi trefnu'r weithgaredd codi arian er mwyn helpu un o'u cyfoedion sy'n mynd trwy driniaeth ar gyfer cancr ar hyn o bryd. Buont yn plethu gwalltiau, peintio ewinedd, rhoi glitter ar wynebau a gwerthu diodydd a chacennau. Hefyd cafwyd cystadleuaeth pêl-droed a 'bake off' a raffl i'r staff. Casglwyd £837.75 i'r elusen - gwych!!!!



**Trip Gwirfoddolwyr 5x60 i Old Trafford, Manceinion.** Fel gwobr am oriau o wirfoddoli i'r cynllun 5x60 y tymor diwethaf, aeth criw o'r 6ed i wylio Man Utd yn chwarae Rochdale yng nghwpan Carabao.1-1 oedd y sgor terfynol, hefo Man Utd yn curo ar giciau o'r smotyn, er ddim yn siwr fod Man Utd wedi ennill cefnogwyr newydd o'r perfformiad!




# BANKSIE LÔN TYWYSOG

Goeliwch chi fod Banksie wedi dod i Lôn Tywysog ym Mharc Myddleton!

Sut hynny? Wel, mae gwneuthurwr ffyn cerdded, wedi bod yn gadael ambell i ffon ar wal sydd ar gornel Lôn Tywysog, gyferbyn â cheg y ffordd sy'n arwain i mewn i Hilary Close.

Yn ystod yr haf gwelwyd dwy ffon gerdded o wneuthuriad da yn gorwedd yn braf ar y wal.Dro arall gwelwyd un ffonyn sefyllwrth y wal. Mae'r ffyn, fel petai, yn annog y rhai ohonom sy'n cerdded heibio i gymryd un o'r ffyn a'i ddefnyddio ein hunain.Dyna a wnaethom a hynny dipyn yn betrusgar heb wybod os oeddem yn gwneud y peth iawn neu beidio! Mi fydd y ffon yn help garw inni wrth inni fynd ar deithiau cerdded.

Yn y blynyddoedd a fu, roedd yna ymgyrch i berswadio aelodau o'r cyhoedd i adael llyfrau darllen roeddent wedi eu mwynhau mewn llefydd amlwg megis ar fainc yn y parc er mwyn eu rhannu efo pobl eraill ac i bobl eraill gael yr un boddhad o'u darllen. Hefyd, yn ddiweddar, roedd plant yn gadael cerrig wedi eu haddurno'n lliwgar o gwmpas gerddi a thai. Y gamp i'r plant oedd eu ffeindio a'u cuddio mewn mannau eraill!

Mae gwneuthurwr ffyn Lôn Tywysog yn berson hael yn gadael ei ffyn i ni sydd heb un a hynny am ddim! Mae dirgelwch ynglyn â'r ffyn ond mae rhywbeth hyfrydyn y weithred! Does neb wedi hawlio cyfrifoldeb hyd yn hyn a does dim angen gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ i ffeindio allan pwy ydi o neu hirhag ofn i'r crefftwr di-enw roi'r gorau iddi.

Mae mwy o ddirgelwch ynglyn â'r ffyn cerdded yma yn Ninbych nag ynglyn â gwaithyr enwog Banksie ym Mhort Talbot gan fod ein gwneuthurwr ffyn ni'n ddi-enw. Diolch amdano!!

**Erfyl Williams**






TE YN Y GRUG

# Tŷ Te a Delicatessen

**Coronation Buildings, Lôn Gefn, Dinbych, Ll16 3TE**

**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar



Vatnajokull, rhewlif mwyaf Gwlad yr Iâ.

Cychwynwyd cyfres ddarlithiau 2019-2020 gyda sgwrs gan Dr. Frank Nicholson ar “Beth mae rhewlifoedd wedi ei wneud i ni?”. Testun amserol iawn ar ôl angladd rhewlif Okjokull yng Ngwlad yr Iâ ym mis Awst ac ar union ddiwrnod y brotest fyd-eang yn erbyn newid yn yr hinsawdd o dan arweiniad Greta Thunberg a phobl ifanc. Dangosodd Dr. Nicholson luniau hyfryd o rewlifoedd mewn gwahanol rannau o’r byd heddiw a disgrifiodd Oes yr Iâ dros Ewrop a Chymru 18,000 o flynyddoedd yn ôl. Gwelir effaith Oes yr Iâ yn y tirlun, gyda’r dyffrynnoedd rhewlifol, y cymoedd, y cribau a’r dyddodion sy’n sail i’r pridd ac agregau a ddefnyddiwn. Mae rhewlifoedd y presennol yn ffynhonnell bwysig o ddŵr ar gyfer cynhyrchu trydan dŵr ond gall y dŵr lifo i’r môr a chodi lefel y môr, fyddai wedyn yn bygwth llawer o ynysoedd a dinasoedd ar draws y byd ac yn gorfodi pobloedd i symud. Awgrymodd petai’r cap iâ ar yr Ynys Las (Greenland) yn toddi byddai Llif y Gwlff yn peidio a byddai Cymru lawer oerach.

---

Hoffem ddiolch i’n Mentor Amgueddfeydd Susan Dalloe am ei harweiniad a’i chymorth i ni ers cychwyn Gwefr heb Wifrau. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi symud i swydd newydd yn Llundain. Croesawn Carly Davies fydd yn cymryd ei lle ac edrychwn ymlaen at gydweithio efo hi.

Hoffem ddiolch i Clwyd Wynne am fod yn Gadeirydd y Pwyllgor am rai blynyddoedd. Gwerthfawrogwn ei gyfraniad i ddatblygiad yr Amgueddfa. Croesawn Carole Lomax fel Cadeirydd newydd a diolchwn iddi hi am ei gweithgarwch ar ran yr Amgueddfa.

Yn ogystal, diolch i’r gwirfoddolwyr newydd sydd wedi ymuno â ni yn ddiweddar.

Croeso i bawb i’n cyfres ddarlithiau am 7.00 o’r gloch nos Wener yn yr Amgueddfa:

Ar Dachwedd 15fed, bydd David Roberts yn sôn am “Edau ar draws y cefnfor, y cebl Trawsiwerydd cyntaf.”

Ar Ragfyr 13eg, bydd David Crawford yn cyflwyno “Noson o Gerdyn Prawf y BBC a’r gerddoriaeth.”

Noson y Curadur yw Ionawr 17eg, a bydd David Crawford yn siarad am “Y Transistor.”



Roedd penwythnos Drysau Agored yn brysur yn yr Amgueddfa gydag ymwelwyr o bell ac agos. Diolch i bawb a gefnogodd ein Bore Goffi ar y dydd Sadwrn.

Mae ein Boreau Crefftau ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis yn tyfu mewn poblogrwydd, ac mae oedolion yn ogystal â phlant yn dod erbyn hyn. Eirin oedd thema Bore Crefftau mis Hydref gan ei fod yn cyd-daro â diwrnod Gŵyl Eirin Dinbych. Yn y llun cyntaf, mae Tomos, Eva, Imogen a Zoe yn creu eirin o glai.



A dyma’r gwaith gorffenedig.



Yn y llun nesaf, gwelir Judith a Heather yn peintio bagiau siopa cotwm â lluniau o eirin a phethau hydrefol eraill, o dan arweiniad Avril. Diolch i Carole am drefnu.

Bwriadwn gynnal **Noson Gwis** hefyd yn y dyfodol agos. Gwyliwch y wefan am fanylion.

Bydd ein **Bore Coffi Nadolig** â Stondinau ar Ragfyr 7fed yn Eirianfa, ar y cyd â Mind Dyffryn Clwyd a Gild Eglwys St. Tomos, 10.00-12.00. Croeso cynnes i bawb fel arfer.


**Hysbysebion**

| | |
|---|---|
| 4cm x 4cm | £3.00 |
| 9cm x 4cm | £6.00 |
| 9cm x 7cm | £10.00 |
| ¼ tudalen | £15.00 |
| ½ tudalen | £25.00 |
| Tudalen Llawn | £50.00 |

# iHOLI A STILIO YNG NGHWMNI BARBARA CRAWFORD



**Soniwch ychydig am eich cefndir**

Dw i'n dod o bentref bach Aberarth, rhyw filltir o Aberaeron, pentref enedigol Hywel Teifi Edwards. Pentref glan y môr lle mae nifer o'r tai wedi cael eu henwi ar ôl llefydd ar draws y byd, oherwydd bod llawer o gapteiniaid llong a morwyr yn byw yno ar un adeg – enwau fel Messina, Alisha ac Oralto. Pentref Cymraeg, prysur yn fy mhlentyndod i ond tarfwyd ar hynny gan y perchnogion ffatrïoedd o Ganolbarth Lloegr a brynodd lawer o'r tai fel tai haf. Caewyd yr ysgol a diflannodd y ddwy siop. Erbyn hyn, dw i'n meddwl bod y pentref wedi adfywio ychydig.

Roedd Aberarth yn le hyfryd i blentyn. Yn yr haf, roedd fy chwaer a finnau yn chwarae gyda phlant y pentref trwy'r dydd ar y traeth, neu yn y cwm, neu wrth yr afon neu mewn hen iard lo, ac roedd cae tu ôl i'r tŷ lle'r oedd Dad wedi codi pabell o sachau i ni un flwyddyn, ac wedi gosod rhwyd ar byst i ni gael ymarfer ar gyfer Wimbledon flwyddyn arall.

Mwynheuais y blynyddoedd yn y 'County School' yn Aberaeron, ond roedd yn gas gen i wersi ymarfer corff a chwaraeon. Ar ôl graddio, cefais swydd nôl yn yr hen ysgol, oedd wedi troi i fod yn 'Ysgol Gyfun Aberaeron' erbyn hynny, a bûm yno am ryw bedair blynedd. Ar ôl priodi, aethom i fyw i Benrhyncoch ac wedyn i Selkirk, yn ne-ddwyrain yr Alban. Y flwyddyn gyntaf i ni fyw yno, roedd eira ar lawr am dri mis – roeddem wedi syrffedu gweld y gwynder bob dydd, ac yn dyheu am weld ychydig o laswellt. Cawsom ddod nôl i Gymru wedyn, a chyrraedd Dinbych, a dyma lle ryn ni wedi bod am ddeng mlynedd ar hugain hapus iawn.

**Beth ydi eich atgof cyntaf?**

Dw i ddim yn siwr am atgof cyntaf, ond dw i'n cofio'r teulu yn mynd i fferm neu rywle i ddewis ci. Dewisodd fy chwaer a finnau gorgast oedd yn cwtsio yn grynedig yng nghornel y sied. Pan aethon ni â hi adre, rhedodd i fyny llwybr yr ardd a chuddio o dan y dail rhiwbob.

**Pa dri lle sy'n bwysig ichi?**

Ardal Aberaeron i Aberystwyth, wrth gwrs – ryn ni'n trio mynd nôl yno unwaith neu ddwywaith y flwyddyn i gyfarfod hen ffrindiau ac i ddrachtio aer y môr. Ydw i'n cael dewis pedwar lle? Glasgow, lle treulion ni lawer o wyliau bendigedig dros y blynyddoedd gyda theulu'r gŵr. A'r Drenewydd a Detroit, lle mae'r plant yn byw. Dydy hi ddim yn hawdd byw mor bell oddi wrth eich teulu - ond fel 'na mae hi'r dyddiau hyn.

**Soniwch am eich diddordeb mewn blodau ac am 'Dinbych yn Blodeuo'**

Wel, dw i wrth fy modd yn garddio. Roedd gan fy rhieni ardd fawr, ac roedd Dad yn tyfu llysiau a Mam yn tyfu blodau. Dw i'n trio tyfu ychydig o'r ddau. Ers 2016 dw i wedi bod yn gwneud ychydig o arddio yn y dref gyda 'Dinbych yn Blodeuo' ac yn mwynhau yn fawr iawn. Mae'n hyfryd i blannu potiau o flodau i harddu'r dref, ond y rhan orau i mi yw adfer gardd sydd wedi mynd yn wyllt gan ddrain a chwyn, fel ar gornel Trewen, a throi rhywbeth drwg yn rhywbeth da. Mae cefnogaeth a brwdfrydedd y gymuned wedi bod yn wych ac roedd y wobr Aur gan 'Gymru yn ei Blodau' yn syndod mawr.

**Beth sy wedi achosi'r embaras mwya' ichi?**

Syrthiais o flaen dosbarth pan oeddwn i'n gwneud ymarfer dysgu.

**Pwy ydi'r person mwya' diddorol rydych wedi ei gyfarfod/chyfarfod?**

Un o'r bobl mwyaf diddorol i mi ei gyfarfod oedd fy nhad-yng-nghyfraith. Roedd ganddo fe gof arbennig ac roedd yn storïwr penigamp. Dylai fod wedi ysgrifennu llyfrau. Roedd wedi bod yn beiriannydd radio yn y rhyfel a chafodd ei ddal a'i garcharu. Pan oedd yn cael ei gludo gyda'r carcharorion eraill i'r Eidal ar long Eidalaidd, ffrwydrwyd y llong gan dorpido o long danfor Brydeinig. Lladdwyd hanner y carcharorion yn syth oherwydd eu bod yn hanner blaen y llong. Achubwyd ei fywyd e oherwydd mai ef oedd y person cyntaf i gael ei roi yn hanner ôl y llong, ac oherwydd iddo beidio â neidio i'r môr a boddi, fel gwnaeth llawer o'r rhai eraill - doedd e ddim yn gallu nofio, er ei fod wedi cael ei fagu mewn pentref glan y môr o'r enw Aberdour yn yr Alban.

**Soniwch am eich cysylltiad â'r Amgueddfa Radio 'Gwefr heb Wifrau'**

Mae'n rhaid cyfaddef nad wy'n gwybod llawer am hen radios ac ati, ond dw i'n gwneud yr hyn a alla i i helpu gyda'r gwaith gweinyddol a'r codi pres. Roeddwn i'n hapus iawn pan ddechreuodd y gŵr fynd i'r Amgueddfa, oherwydd mi ges i wared â'r holl falfiau oedd yn stelcian yng nghefn ein cypyrddau ni gartre! Mae'r gwmnïaeth yno yn gynnes a chroesawgar ac mae amryw yn taro i mewn yn rheolaidd am sgwrs a phaned.

**Beth sy'n dân ar eich croen chi?**

Negyddoldeb!

**Oes na un peth arbennig yr hoffech ei wneud yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesa' ma?**

Mae bywyd yn ddiddorol tu hwnt ar hyn o bryd, ac wedi mynd i gyfeiriadau hollol annisgwyl. Cadw cysylltiad agos â theulu a ffrindiau sy'n bwysig, a bod yn ddiolchgar am barhad iechyd.

**Sut fyddwch yn treulio eich oriau hamdden?**

Dw i wrth fy modd yn ymweld â gerddi, tai hanesyddol neu warchodfeydd natur. Mae cael latté bach allan yn dderbyniol iawn hefyd.

**Pa gyngor fyddech yn ei roi i Brif Weinidog?**

Does gen i ddim cyngor i'w roi i Brif Weinidog yn sefyllfa ddyrys ein gwlad a'n byd ni ar hyn o bryd.

**Pa fath o raglenni teledu sy'n rhoi'r pleser mwya ichi?**

Rhaglenni garddio ac amgylcheddol gan fwyaf, ond ambell i gyfres dditectif neu ddrama hanesyddol hefyd weithiau.

**Sut wnaethoch dreulio'r misoedd diwethaf?**

Roedd misoedd yr haf yn rhai prysur iawn eleni. Buon ni'n paratoi ar gyfer ymweliad beirniad 'Cymru yn ei Blodau' am wythnosau, ac wedyn roedd y Clwb Hwyl Gwyliau yn y Capel ddwywaith yr wythnos trwy gydol yr haf ar gyfer plant ysgol gynradd. Bues i'n helpu i wneud tortsys efo plant ar stondin Beirianneg yn y Pentref Gwyddoniaeth ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst hefyd. Ym mis Medi, aethon ni i weld y teulu yn Detroit a chael cyfle i fod yn Nain a Taid am gyfnod eto.

→

# Teyrnged i Jean Powell

Bu farw Jean Powell o Ddinbych a ddisgleiriodd ym myd crochenwaith a cerameg a chynllunydd murluniau Craig Bragdy yn 93 oed ar Fedi 14eg. Dyma deyrnged Arwel Emlyn Jones iddi.

**MurlunLlyfrgell Dinbych**
(a gynlluniwyd gan Jean Powell)

**"Remember me as you pass by**
**As you are now so once was I."**

**"Wrth basio heibio cofiwch chi**
**Fel yr ydych yn awr yr oeddwn i."**

**Mae'r murlun yn estyn o'r ddaear i'r nef**
**O lonydd Dinbych i gastell y dref,**

**Y myrdd o liwiau ar bob teil**
**Yn llawn o'i hynni, llawn o steil,**

**Mae'r llefydd a grwydrodd hi ei hun**
**Wedi eu fframio oddi mewn i'r llun,**

**Craig Bragdy, Melin Brwcws, y llefydd hyn,**
**Ar draws y dyffryn ac i fyny'r bryn,**

**Y colonnade, tai llai a mwy**
**Yno'n Ninbych y gwnaethpwyd hwy**

**Ac ar y mur y mae'r darlun mawr,**
**Murlun bywyd wedi ei fyw pob awr.**

**Mae ei phersonoliaeth golau a thriw**
**Yn y lliwiau llachar yn dal yn fyw,**

**Mae murlun bywyd mewn ffram o hyd**
**A'i henw'n y manylion mân i gyd**


**Ac ym murlun bywyd gwelwn i**
**Y perlau bach adawodd hi.**

**Arwel Emlyn**



**Jean Powell**

Petaech yn cerdded i fyny'r grisiau yn llyfrgell y Dref, Dinbych mae murlun wedi ei gynllunio gan Jean Powell yn ymestyn o'r llawr gwaelod drwy lawr un i'r ail lawr. Mae'n gynrychiolaeth o fywyd Dinbych a'r fro.
Bu Jean farw'n ddiweddar yn 93 oed ar ôl bywyd diddorol a lliwgar. Yn blentyn bu'n byw ym Mharc St George, Wallasey gyda'i mam a gyda'i thad yn crwydro i Affrica ac yn ôl ar y llongau o Lerpwl ac yn dod â theclynnau lliwgar a straeon difyr yn ôl o Affrica.
Roedd ei diddordeb mawr mewn crochenwaith a gyda'i gŵr Taffy, yr oedd yn creu crochenwaith yn Llangollen i ddechrau, wedyn ym Melin Nannerch lle mae'r Cherry Pie heddiw ac yna ym Melin Brwcws lle y bu mynd mawr ar gymdeithasu gyda'r felin angen dipyn o waith i'w haddasu a'i gwella.
Mae ganddi nifer mawr o furluniau o amgylch y byd gan fod creu murluniau wedi dod yn fwyfwy pwysig iddi fel yr aeth amser ymlaen. Murluniau yn Lerpwl, Ysbyty Caer, ar long, yn Sweden ayyb.
Symudodd y gwaith i'r Malt Kiln ger yr Afon Ystrad mewn amser ac wedyn i Craig Bragdy.
Ysgrifennodd ei mab Simon lyfr diddorol iawn am ei gwaith, gyda'i lluniau hi drwy'r llyfr.Mae dau fab arall iddi sef Nic a Shon yn edrych ar ôl y cwmni yn Craig Bragdy ar y stâd ddiwydiannol ac mae Ianto'r mab arall yn byw yn Ninbych hefyd.
Mae ei murluniau yn Kuwait, yn yr Emiradau Arabaidd Unedig, Dubai, Abu Dhabi, Oman ac yn ddigon syfrdanolyn y Mosc Cysegredig ym Mecca a Mosc y Proffwyd ym Medina. Rhyfeddol.
Hefyd mae murlun yn amgueddfa Riyadh sydd yn dangos "Siwrne'r Proffwyd Mohammad o beryglon Mecca i lawenydd y werddon ym Medina" – "Yr HIJRA". Anhygoel meddwl fod dychymyg a chreadigrwydd un person wedi lledaenu i bellafoedd byd, ond dyna beth yw bod yn greadigol a dyna wnaeth Jean Powell yn ei bywyd lliwgar a difyr.


Y Murlun

**Oes llyfr wrth erchwyn y gwely ar hyn o bryd?**
Dw i ddim yn darllen llawer o ffuglen y dyddiau hyn, ond eleni mi wnes i ddarllen 'Ingrid' gan Rhiannon Ifans, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Llanrwst. Roedd Rhiannon yn ffrind Prifysgol yn Aberystwyth ac rwy i'n dal i'w chyfarfod hi, â ffrindiau eraill, pan fyddwn yn mynd i Geredigion a phan fydd hi'n dod i fyny i ganu'r Plygain yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy.
Dw i'n trio darllen y Beibl bob dydd, yn y bore fel arfer cyn dechrau ar brysurdeb y dydd. Dw i'n teimlo ei fod yn gymorth mawr ac yn cyfoethogi bywyd.
**Rhannwch gyfrinach fach efo ni**
Dw i'n cofio gweld Huw Edwards, y cyflwynydd newyddion, mab Hywel Teifi, ar y traeth yn Aberarth pan oedd tua saith oed.

# Dylunydd tecstilau yn defnyddio Halen Môn fel cyfrwng i roi gorffeniad i sgarffiau denim newydd sydd wedi'u hysbrydoli gan wisgoedd Samurai (llun ar y clawr blaen)

Mae llifyn(dye) ffabrig hynafol a ddefnyddiwyd gan ryfelwyr Samurai o Siapan am ei rinweddau gwrthfacterol naturiol wedi ysbrydoli dylunydd tecstilau i greu casgliad newydd o sgarffiau ffasiynol.

Mae'r dylunydd dawnus Gethin Ceidiog Hughes, 27 oed, o Ddinbych, wedi lansio'r sgarffiau denim Siapaneaidd gan ddefnyddio llifyn indigo a thechnegau gwehyddu traddodiadol ac mae'n defnyddio Halen Môn wedi'i gymysgu â finegr gwyn wedi'i ddistyllu fel cyfrwng i roi gorffeniad i'r defnydd.

Mae'r amrediad sgarffiau newydd yn ganlyniad chwe mis o ymchwil ac arbrofi manwl.

Amserwyd y lansiad i gyd-fynd â Chwpan Rygbi'r Byd yn Siapan ac i ddathlu'r cysylltiadau cynyddol rhwng y ddwy wlad.

Yn ddiweddar, cychwynodd Gethin ar gyfnod preswyl yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun a alluogwyd gan grant o £5,000 oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae'n gobeithio llwyfannu ei arddangosfa unigol cyntaf yno yn y flwyddyn newydd.

Mae indigo ymhlith y llifynnau hynaf yn y byd i'w defnyddio ar gyfer lliwio ac argraffu tecstilau ac mae'n dyddio'n ôl o leiaf 6,000 o flynyddoedd i Periw.

Daw glas nodweddiadol y llifyn o ddail y planhigyn Indigo o Siapan, *Persicaria tinctori*, sydd â nodweddion gwrthfacterol, gwrtharogl ac mae'n gwrthsefyll tân naturiol.

Arferai milwyr Samurai wisgo dillad gwreiddiol wedi'u llifio â lliw indigo o dan eu harfogaeth fel ffordd i amddiffyn eu cyrff rhag haint ac er mwyn helpu i lanhau clwyfau. Heddiw, fodd bynnag, at ddibenion cynhyrchu ar raddfa fawr, mae'r lliw yn cael ei ailgreu yn bennaf trwy ddefnyddio llifynnau rhatach sy'n seiliedig ar gemegau.

Darganfu Gethin fodhalen môr o gwmni Halen Môn yn "gyfrwng gorffeniad" perffaith, gan helpu i gloi'r lliw yn y defnydd.

Bydd y sgarffiau ar gael i'w prynu gan gyflenwyr ac ar-lein o dan frand Gethin, sef Wilding, enw canol ei fam.

"Mae wedi bod yn llafur cariad go iawn," meddai Gethin.

"Mae Siapan yn adnabyddus am wneud y sidan a'r denim gorau yn y byd. Ni all unrhyw beth arall gystadlu o ran ansawdd. Mae wedi cymryd llawer o arbrofi ac ymchwil i greu'rhyn sy'n ddilys ac rwy'n gyffrous iawn gyda'r canlyniadau.

Mae Halen Môn, sydd ar gael ar garreg fy nrws, yn cael ei ddefnyddio gan nifer fawr o gogyddion Michelin. Mae'n debyg bod hyd yn oed Cyn-arlywydd yr Unol Daleithiau, Barack Obama yn mwynhau'r danteithfwyd blasus Cymreig yma. A rŵan mae'n cael ei ddefnyddio fel cyfrwng i roi gorffeniad i'r denim yng Ngogledd Cymru ac mae'n gweithio'n dda iawn."

Astudiodd Gethin Ddylunio Cynnyrch yn Ysgol Gelf a Dylunio enwog Caerdydd cyn mynd ymlaen i gwblhau MA mewn Celf a Dylunio.

Ar ôl gadael y brifysgol, enillodd leoliad nodedig fel rhan o gynllun Ysgoloriaeth Profi yn y Ganolfan Argraffu Ranbarthol, sy'n rhan o Goleg Cambria yn Wrecsam.

Tra yno, treuliodd haf yn arbrofi gyda thechnegau amrywiol ochr yn ochr ag artistiaid a gwneuthurwyr printiau amlwg a'r gwaith hwn a enillodd wobr gwneud printiadau mwyaf Cymru iddo - Gwobr Goffa Eirian Llwyd sy'n anrhydeddu artistiaid o Gymru a ddangosodd ymroddiad a thalent greadigol ragorol yn eu maes o wneud printiadau.

Roedd Eirian Llwyd, gwraig cyn arweinydd Plaid Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones, yn wneuthurwr printiadau o fri ac yn sylfaenydd Y Lle Print Gwreiddiol ar Ynys Môn.

Yn dilyn ei marwolaeth yn 2014 sefydlwyd ymddiriedolaeth goffa gan ei theulu a Chyngor Celfyddydau Cymru i ysbrydoli ac ariannu'r genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr printiadau Cymreig.

Ysbrydolwyd casgliad cyntaf Gethin o sgarffiau sidan gan yr arlunydd a'r damcaniaethwr avant-garde Rwsiaidd Kazimir Malevich a'i baentiad eiconig o 1915, sef Sgwâr Du.

Mi ddigwyddodd y cyfan yn hollol naturiol," meddai Gethin, sy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy.

"Roeddwn yn arbrofi gyda gwahanol bethau ac roeddwn mewn cysylltiad â masnachwr yn Siapan ac yn ymchwilio i hanes llifyn indigo.

Yn y bôn, cotwm yw denim a chredaf fod y sgarffiau denim yn unigryw oherwydd nad oes neb arall yn gwneud yr hyn rwyf i yn ei wneud, sef eu gwehyddu'n draddodiadol ar wŷdd gwennol.

Mae denim yn oesol ac nid yw byth yn mynd allan o ffasiwn. Mae pawb yn ei wisgo ar ryw adeg ac mae'n debyg bod gan bawb un eitem denim yn eu cwpwrdd dillad yn wahanol i dueddiadau ffasiwn eraill sy'n mynd a dod.

Yn amlwg, mae denim yn hollol wahanol i sidan o ran gorffeniad," esboniodd Gethin.

"Treuliais lawer o amser yn ymchwilio i'r ffordd orau i orffen y defnydd er mwyn cael y gorau ohono ac mi wnes i ddarganfod bod defnyddio halen yn ffordd dda o gloi'r lliw yn y defnydd.

Roeddwn i'n gwybod eisoes am Halen Môn ac yn hytrach na defnyddio halen cartref wedi'i gynhyrchu ar raddfa fawr, roeddwn i eisiau defnyddio cynnyrch crefftus o ffynonellau lleol a oedd ar gael ar garreg fy nrws.

Mae'n rhoi teimlad braf a gorffeniad hyfryd i'r defnydd ac roeddwn i'n hapus iawn gyda'r canlyniadau."

Mae sgarffiau sidan Gethin eisoes ar gael mewn nifer cynyddol o siopau dillad *boutique* ledled Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Yn ddiweddar, agorodd y stiwdio fel rhan o'i gyfnod preswyl yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun, sydd wedi cefnogi ei daith artistig.

"Rwy'n ddiolchgar iawn i Ganolfan Grefftau Rhuthun a'i chyfarwyddwr Philip Hughes am y gefnogaeth amhrisiadwy wrth i mi ddechrau ar y cyfnod newydd cyffrous hwn yn fy ngyrfa," ychwanegodd Gethin.

**I gael mwy o wybodaeth am waith Gethin ewch iwww.wilding.store**

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn lansio ymgyrch i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi lansio ymgyrch newydd i herio a thynnu sylw at y gwahaniaethu ar sail oedran dyddiol mae pobl hŷn yn ei wynebu.

Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o sut mae gwahaniaethu ar sail oedran yn effeithio ar bobl hŷn a chymdeithas, a newid agweddau fel nad yw'r gwahaniaethu mae pobl hŷn yn ei wynebu yn cael ei weld fel rhywbeth derbyniol mwyach.

Mae'r Comisiynydd eisiau i bobl hŷn a'r cyhoedd rannu esiamplau o wahaniaethu ar sail oedran y maent wedi eu gweld neu ddod ar eu traws, fel ei bod yn gallu herio'r rhai sy'n defnyddio iaith sy'n gwahaniaethu ar sail oedran, yn cyfleu stereoteipiau sy'n gwahaniaethu ar sail oedran neu'n gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd yn erbyn pobl hŷn, gan eu dal i gyfrif. Dywedodd **Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:**

"Er gwaethaf dealltwriaeth gynyddol o ffurfiau eraill ar ragfarn a gwahaniaethu, a'r effaith mae'r rhain yn ei chael ar unigolion a'r gymdeithas, mae gwahaniaethu ar sail oedran i'w weld yn eang ac mae'n cael ei weld yn dderbyniol yn aml hefyd.

Bob dydd, rydyn ni'n clywed iaith ac yn gweld lluniau sy'n gwahaniaethu ar sail oedran ac yn cadarnhau stereoteipiau am bobl hŷn sydd â'u ffocws yn aml ar salwch, dirywiad a breguster. Yn aml iawn mae mynd yn hŷn yn cael ei gyflwyno fel rhywbeth i'w ofni yn hytrach na'i ddathlu.

Mae hyn yn arwain at gymdeithas lle rydyn ni'n gweld gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill, yn ogystal ag ar y cyfryngau ac ym maes hysbysebu.

Mae corff cynyddol o ymchwil yn dangos yr holl ffyrdd y mae gwahaniaethu ar sail oedran yn cael effaith negatif ar bobl hŷn, gan effeithio ar eu hiechyd corfforol a meddyliol, gwella o salwch, lefelau eithrio cymdeithasol a disgwyliad oes hyd yn oed.

Felly mae mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran yn hanfodol a dyma pam rydw i wedi lansio fy ymgyrch Gwahaniaethu Ar Sail Oedran Pob Dydd heddiw – i dynnu sylw at ba mor amlwg yw gwahaniaethu ar sail oedran mewn cymdeithas a'r effaith arwyddocaol mae'n ei chael, ochr yn ochr â herio'n gadarn yr esiamplau o wahaniaethu ar sail oedran yr ydw i wedi'u gweld, a'r rhai sy'n cael eu rhannu gyda mi fel rhan o'r ymgyrch."

I gefnogi'r ymgyrch, mae'r Comisiynydd wedi datblygu hwb #GwahaniaethuArSailOedranPobDydd, sy'n darparu amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol am adnabod a mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran, ffeithiau a ffigurau defnyddiol ac astudiaethau achos sy'n dangos profiadau pobl hŷn.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi datblygu canllaw gwybodaeth newydd ar gyfer pobl hŷn – **Gweithredu yn Erbyn Gwahaniaethu Ar Sail Oedran** – a bydd hefyd yn cyflwyno cyfres o weithdai i'w helpu i adnabod gwahaniaethu ar sail oedran a'u grymuso i'w herio.

Ychwanegodd y Comisiynydd::

"Rhaid i roi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran fod yn flaenoriaeth ar draws cymdeithas ac rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda phobl hŷn, cyrff cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector, busnesau a'r cyhoedd yn ehangach er mwyn herio a thynnu sylw at wahaniaethu ar sail oedran bob dydd. Drwy weithio gyda'n gilydd mae cyfle i ni newid agweddau a mynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran sy'n sail i gymaint o'r problemau mae pobl hŷn yn eu hwynebu heddiw."

Ar gyfer pob ymholiad gan y cyfryngau, cysylltwch â Richard Jones ar 029 2044 5040 / 07515 288271 neu e-bostio richard.jones@olderpeoplewales.com

Mae posib cael mynediad i Hwb yr Ymgyrch #GwahaniaethuArSailOedranPobDydd yma: www.olderpeoplewales.com/everydayageism

Mae strategaeth 2019-22 y Comisiynydd yn nodi rhoi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran fel blaenoriaeth allweddol. Mae strategaeth y Comisiynydd ar gael i'w lawrlwytho yma: http://www.olderpeoplewales.com/en/publications/strategy.aspx

I gael rhagor o wybodaeth am waith a blaenoriaethau'r Comisiynydd, ewch i www.olderpeoplewales.com






# TECHNOLEG A FI

Dydw i ddim yn un garw am rygbi. Sori, ond wnes i erioed dorri fy nghalon go iawn pan gollodd y tîm cenedlaethol unrhyw gêm yn ystod y trigain mlynedd diwethaf. Dim hyd yn oed teimlo'n isel.

Un o'r rhesymau am hynny, mae'n debyg, ydy'r heip a gaiff ei greu gan y cyfryngau Cymreigyn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'n gas gen i'r hysbysebu gwirion a'r brolio bostfawr a geir o flaen unrhyw gêm ryngwladol.

Caiff yr un effaith negyddol arna' i â rhywun yn d'eud, "Mi wnei di wirioneddol fwynhau'r llyfr/ ffilm yna."

Eto i gyd rydwi'n mwynhau gwylio gemau ar y teledu, boed nhw'n gemau rygbi 15 bob ochr, 13 bob ochr a 7 bob ochr.

Rydw i wrth fy modd yn gweld y ffefrynnau - timau'r cewri/y rhai sy'n sgwario hi ar y cae – yn cael cweir gan dimau megis Fiji, Siapan a Tonga.

Na, dydy hynny ddim yn digwydd yn aml, a dyna sydd yn rhoi pleser imi.

Ta waeth am hynny, roedd hi'n fore dydd Llun a minnau'n awyddus i wylio gêm gyntaf Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan Y Byd.

Yn anffodus, roeddwn yng nghartref y ferch ar y pryd, a dydw'i ddim yn deall yn iawn sut mae'i theledu hi'n gweithio – er fy mod i'n cael gwers a cherydd ganddi bob tro rydw i yno!

Mae ganddi rhyw flwch arbennig gyda'i theledu ar gyfer rhyw bwrpas ffansi neu'i gilydd.

Mae ganddi hefyd ddau rimôt, a'r bore hwnnw doeddwn i ddim yn cofio pa rimôt oedd yn g'neud be'.

Wrth gwrs, roedd sawl botwm ar y ddau gyfarpar.

Pwysais un botwm coch ar un cyfarpar. Fe ddaeth yna fywyd i'r set deledu am funud.

Yna ddigwyddodd yna ddim byd. Dim byd o gwbl.

Pwysais fotwm cyffelyb ar y rimôt arall, a daeth yna ryw neges yn gofyn oeddwn i eisiau ail-raglennu'r set.

Diffodd y botwm coch, tynnu'r plwg o'r soced a cheisio eto. Yr un cwestiwn eto ynglŷn ag ail-raglennu'r set.

Wel, ar ôl sawl ymdrech derbyn mai rhoi'r ffidil yn y to oedd orau a throi at y radio ar gyfer sylwebaeth hirwyntog Radio Cymru.

Bisged blaen yn hytrach na bisged siocled oedd hynny.

Brygowthan wedyn am gymhlethdod y teledu modern.

Dyheu am y dyddiau syml hynny pan oeddwn i'n gorfod mynd i waelod yr ardd a throi'r êrial yn ôl y cyfarwydd, " Tro dipyn bach mwy arni.....ydy mae'r llun yn gwella. Daria mae o wedi mynd yn llwyr rŵan."

Roedd yna fwy o eira ar ein sgrîn ni nag oedd yna ar ben Yr Wyddfa ynghanol gaeaf, a rhai o'r cymdogion yn ganmoliaethus yn d'eud eu bod nhw'n gallu cael llun da ar Telefis Eireann hefyd.

Un bwlyn yn rheoli'r ddwy sianel hyd y daeth hi'n ddyddiau BBC2. Yna rhesiad o fotymau i'w pwyso wedi'u tiwnio i'r sianelau gwahanol. Waw, dyna wych!

A'r cyfan mewn du a gwyn.

Ac i droi'n ôl at rygbi, gwahanol haenau o lwyd oedd lliw crysau Cymru, Iwerddon a'r Alban y dyddiau hynny, ond weithiau er mwyn hwylustod i'r gwylwyr roedd un tîm yn gwisgo siorts gwyn a'r llall yn gwisgo siorts du.

O fewn fawr o dro - ar gaeau mwdlyd y chwedegau – roedd pawb yn fwd o'i gorun i'w sawdl a phawb yn edrych yr un fath. Yn llwyd budr!

Yna, daeth teledu lliw yn boblogaidd yn y saithdegau. Roedd hi'n bleser gwylio'r hysbysebion, hyd yn oed os oedd rhai o'r rhaglenni yn ddigon diflas.

Ond – ar ôl dyddiau disglair y chwaraewr fideo a'r chwaraewr dvd -rhaid imi gyfaddef fy mod i wedi colli'r ffordd yn rhywle.

Ydw, mi rydw i'n gallu defnyddio'n set deledu ni ar gyfer ei phwrpas sylfaenol, ond y mae'r dechnoleg fodern a'i derminoleg tu hwnt imi.

Croeso i fyd y deinosoriaid.

Wn i beth wna i – fe wna i bwyso'r botwm Help. Dylwn gael arweiniad yma.

Wps! Be' dwi wedi'i 'neud rŵan?

..........................................

Rydw i'n falch o dd'eud imi dderbyn ymateb i'r hyn a ysgrifennais yn rhifyn Hydref am sbectols.

Dyma'r neges e-bost a dderbyniais.

"Fel un sy'n gwisgo sbectol yn achlysurol, rydw i'n cael y profiad weithiau nad ydw i a'r sbectol yn yr un lle ar yr un pryd!

Yn y dosbarth mae hynny'n golygu ei bod hi'n haws ei chadw hi ar fy mhen, ond wrth gwrs dydy hi ddim yn aros yn lân iawn wedyn!

Dwi hefyd wedi tynnu'r sbectol wrth fynd i'r gwely, ei rhoi hi ar y gwely, ac yna eistedd arni.

Gan fy mod i'n eitha' newydd i'r busnes gwisgo sbectol yma, dwi hefyd yn gyson yn mynd i grafu fy llygad ac yn taro'r lens!"

Oes gennych chi gydymdeimlad â'r awdur?

**Stan Lyall**


/gwasg.com PRINT

ARGRAFFU

DYLUNIO GRAFFEG

PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES

LLYFRYNNAU › POSTERI

TAFLENNI › PAMFFLEDI

BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU

ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL

ARGRAFFU FFORMAT BRAS

ARGRAFFU CYNLLUNIAU

LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP

01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com

GwasgPrint

# Ac roeddwn i yno...

Ar ôl cael gwadd i roi ryw bwt yn Y Gadlas, daeth i'm meddwl gymaint mae ffermio wedi newid yn y 80 mlynedd diwethaf. Ddiwedd 1938 fe adawsom ein fferm fechan 30 acar a symud i fferm o dros 186 acar ond heb newid ardal gan fod y ddau le yn trawo ar ei gilydd, ond mynd yn bellach o'r capel a'r ysgol, ac er nad oeddwn ond pump oed, rwy'n cofio'r symud yn dda. Fy chwaer a minnau yn cerdded ar draws coed a chaeau i gynnau tân mewn tŷ mawr oer iawn, a phopeth yn ddiarth i ni. Dwi'n cofio'r ceffyl a'r ciar yn cyrraedd wedyn hefo'n holl eiddo arno mae'n debyg, a'r gwartheg yn dilyn. Hefyd cofio mam yn dweud amdani'n mynd ar y bws o Bont y Coed i'r dre, a gwraig oedd yn eistedd wrth ei hymyl yn dweud "Clywed eich bod wedi cymryd fferm Y Porth 'na – rydi ffŵls, newch i byth fyw yna, mae'r lle yn berwi o wningod ac asgell!" Ond byw yno wnaethon ni, ac yn hapus iawn hefyd er gwaetha'r anawsterau.

Cafodd fy nhad bigyn draenen ddu yn ei fys yn ystod y flwyddyn gynta, a chan nad oedd penisilin yr oes honno, aeth y pigyn yn septig. Aeth y drwg o'i fys i'w benysgwydd a bu'n rhaid cael Dr Duff o Ddinbych i'r tŷ i lansio'r lwmp ar ei benysgwydd, a chael llond powlen o gôr allan! Mi fuodd yn reit wael am dipyn ar ôl hyn – ond diolch am y deg ohonom o'r teulu i'w gynorthwyo. Fy mrawd yn troi a thrin y tir efo'r ceffylau yn ddeg i unarddeg oed, a'm chwiorydd yn helpu yn y tŷ ac allan ar y fferm. Doedd dim amser i'w golli rhag i broffwydoliaeth y ddynes ar y bws ddod yn wir!

Y cam cyntaf oedd meddwl am gael 'madael ar dipyn o'r cwningod rheibus oedd yn bwyta ac yn baeddu popeth o'u blaenau. Hau ugain acar o geirch y flwyddyn gynta a dim ond cael rhyw 'chydig o lwythi i'r 'sguboriau, a hanner hwnnw yn asgell wedi ei rwymo â dwylo! Rwy'n dal i gofio, ac mae'n siwr fod yr esgid fach yn gwasgu.

Ond daeth gwaredigaeth yn sgil 'Tom Moor' o Stryd Henllan, Dinbych. Galwodd heibio a chynnig dal y cwningod a rhannu'r proffid 50-50, ac felly y bu. Ond ar ôl ychydig amser roedd yn dweud nad oedd yn dal llawer, ac ateb fy nhad oedd "well take the blinkin lot - only catch them all!" Ar ôl blwyddyn roedd wedi dal tua thair mil o wningod, ac eto ymhen blwyddyn roedd mil arall wedi'u dal, ac mae'n debyg fod cwpwl o wningod yn werth rhyw hanner coron (2 swllt a 6 cheiniog). Fe wnaeth Mr Moor yn reit dda o'r antur, ond roeddem yn hynod o ddiolchgar iddo am y clirio, a hefyd am ambell reid gawsom ni'r plant i Ysgol Pant Pastynog yn sedd ôl y Morris 8 'Convertible' (a oedd yn llawn o wningod a ninnau'n eistedd ar eu top!) Mae'n debyg iddo fod allan drwy'r nos yn eu dal. Beth oedd y stori honno am yr hogyn ysgol, y sgŵlmistar a'r gwningen dudwch? Ond buan iawn daethom ni'r hogiau i ddeall fod pres poced mewn dal cwningod, a'u cadw i lawr a fu nes i myxomatosis yng nghanol y 50'au ladd pob cwningen trwy'r wlad i gyd.



Y dasg nesaf oedd ceisio cael trefn ar ladd yr asgell a'r chwyn. Gan nad oedd chwynladdwr ar gael, y drefn yr adeg honno oedd cael 'rotation' bob blwyddyn – doedd hyn ddim yn hawdd oherwydd roedd yn ein gyrru i lafurio tir blin er mwyn glanhau'r tir. Troi tir glas y flwyddyn gyntaf, a hau ceirch ynddo. A dyma oedd yn bwysig – troi cae sofl yr ail flwyddyn (gan obeithio am dywydd sych), ei ddragio lawer tro a'i lyfnu gydag ogiau bigau ac wedyn ogiau tsiaen. Byddai'r holl chwyn yn donnau mawr ar hyd y cae – yr asgell a'r chwyn o'r enw 'scwch' – cnaf o chwyn oedd yn plethu am blanhigion eraill. Roedd yn bleser eu casglu â fforch a'u llosgi – "job dda!" Roedd y gweithgarwch yma'n parhau oddeutu wythnos ar dywydd da. Yna rhesu, hau swêj, mangyls, tatws ac yn y blaen. Dim giwana ond digon o dail, a sgyfflo'r cyfan mewn rhyw fis i chwe wythnos. Priddo'r tatws a rhoi bacsiau (sachau wedi plygu) am ein pengliniau i 'singlo'r' mangyls a'r swêj a thynnu'r chwyn. Popeth yn cael ei wneud â cheffylau – y nhw oedd yn cael y bwyd gorau er mwyn cael egni i aredig y tir, ei drin a hau'r had, a'r holl waith o baratoi'r tir am y cynhaeaf gwair a'r cynaeafau eraill.

OND, daeth y Rhyfel Medi 1939 a newid mawr i'r ffermwyr a phawb arall am byth. Gorfodion i wneud pethau fel plannu acar neu ddwy o datws, hau mwy o geirch a haidd, a phopeth yn fwy anodd eu cael, a'r 'blackouts' a'r tywyllwch ym mhob man. Roedd







angen llyfr ‘ration’ i brynu bwyd o’r siopau. Un peth da ddaeth o’r chwalfa fawr i gyd oedd pan ddaeth ffermwyr at ei gilydd i agor ffatri laeth yn Llandyrnog – y Co-op wrth gwrs! Daeth y lorïau cyfarwydd i’w gweld ym mhob man, a daeth stand laeth i’w gweld ar ben pob lôn a chroesffordd. Hefyd fe sefydlwyd y ‘Milk Marketing Board’ a fu’n gefn i’r diwydiant llaeth am ddegawdau.

Roedd diwrnod cychwyn godro yn ddiwrnod mawr yn ein hanes. Roedd gennym ryw wyth i ddeg o wartheg, a’r rheini yn ‘Shorthorn’ i gyd ac yn cael eu godro â llaw i wneud menyn i’w werthu yn y dref pob wythnos. Roedd y pris yn anwadal iawn, ond pan ddaeth yr MMB i’w nôl fe newidiodd pethau. Llwytho dwy gansen ddeg galwyn o laeth ar y drol a’r ceffyl a’i gario rhyw filltir lawr y ffordd i’r stand laeth i gael ei nôl gan lori’r Co-op. Roedd y ‘cheque’ llaeth yn dderbyniol dros ben, ac yn help mawr i ni ddechrau gwneud trefn ar fyw ar fferm 186 acar.

Wedi’r rhyfel fe newidiodd pethau’n gyflym – y peth cyntaf oedd tranc yr hen geffyl druan pan ddaeth y Fordson Bach i’n ffermydd, dros nos fel petai, yn gyntaf drwy’r ‘War Agricultural Executive Committee’ (neu’r ‘War Ag’ ar lawr gwlad). Daeth y rheini a’r tractor a’r beindar ŷd, a’r aradr a’r injan wair i’n buarth, i gyd i’w defnyddio tu ôl i’r tractor, a hefyd y dynion i’w defnyddio. Dyna inni oedd cychwyn y gair ‘contractor’, sydd ar lafar gwlad bob dydd erbyn hyn. Roedd y rhain yn creu balchder, syndod a llawenydd inni gyd.

Yn fuan iawn roedd Fordson Bach ym muarth y rhan fwyaf o ffermydd. Roeddynt yn cael eu gwerthu gan Mr Trefor Jones oedd yn cadw siop grosar Penygroes ym Mhrion. Roedd yn amser cynhyrfus iawn, a llawer o waith adnewyddu. Rhoi powl (drawbar) ar bob ‘implement’, ac echeli a theiars rwber ar y troliau, gosod tanc mawr i ddal y TVO (Tractor Vaporising Oil) a thanc bach i ddal y petrol, a llawer o newidiadau eraill. Roedd yn rhaid cychwyn y Fordson ar betrol a’i droi ar TVO wedi iddo gynhesu. Roedd tymor ac oes y mecaneiddio wedi dechrau a ninnau wrth ein boddau, ac rwy’n cofio’r ‘moto’ cyntaf yn cyrraedd y buarth – ond stori arall yw honno!

O.N. Daeth i’m cof wrth imi sgwennu hwn am y tri ohonom (brodyr, wrth gwrs) yn agor cae deg acar o geirch. Y brawd hynaf, Ted, bob amser yn pladuro, a’r bladur bob amser yn sgleinio ac yn finiog fel rasal, a digon o waith i ni’n dau yn trin ysgubau a’u rhwymo. Yna dechrau meddwl beth tybed oedd cylchfesur y cae deg acar roeddem yn ei agor? Wedi datrys yr ateb daeth y cwestiwn beth oedd y gwahaniaeth gyda chylchfesur dau gae pump acar a oedd yn disgwyl i gael eu hagor wedyn. Pôs bach i ddarllenwyr Y Gadlas – cofiwch fod 4840 llathen sgwâr mewn acar a doedd gennym ni ddim ffôn symudol na chyfrifiadur i’n cynorthwyo! Neu trefnwch ‘daith Gadlas’ o amgylch cae deg acar a chae pump acar a’u mesur mewn camau! (Ateb i swyddfa’r Gadlas os gwelwch yn dda!!).

**Glyn Davies.**

**Mae Glyn a Myra wedi ymgartrefu’n Ninbych ers 7 mlynedd bellach. Diolch i Glyn ac i’r Gadlas am eu caniatâd i ddefnyddio’r erthygl yn y Bigwn.**


siop siocled
01745 814864 dinbych
Siocled o wlad y Belt
Siocled cymraeg o Bala
Pizza siocled - Te, coffi a sgwrs
Cinio ysgafn - Cacenau blasus a sgons
Annie
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com






MEIRION DAVIES A’I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
‘Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch’
John Glyn Jones

# Byw i eraill yw byw yn iawn

Ystyriwch faint o eglwysi a chapeli'r dref sydd eisoes wedi gorfod cau eu drysau, neu sydd ar fîn gwneud. Mae'r rhestr yn frawychus o ystyried mor boblogaidd oedd crefydd genhedlaeth neu ddwy yn ôl. Yn fy amser i, mae'r canlynol wedi, neu ar fîn mynd - Capeli Bodawen, Seion, Y Bedyddwyr, Tower Hill, Y Brwcws (Annibynwyr), Salem a hefyd Eglwysi Dewi Sant a Sant Andreas.

Wrth gwrs, mae hanes pob achos wedi ei gofnodi'n ofalus fel ein bod yn gallu dychmygu'r dyddiau dedwydd rheini.

Tra'n chwilio am lyfr yn y stydi 'ma y noson o'r blaen, mi drewais ar gyfrol fach, 'Annibyniaeth yn Ninbych a'r Gymdogaeth' gyhoeddwyd gan Wasg Gee yn 1913. Yr awdur oedd un William Roberts, ac mi benderfynais fynd ar ôlei hanes – tasg addysgiadol a phleserus.


Yn enedigol o'r Brwcws (1841) treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Ninbych. Pan yn fachgen, aeth yn brentis o gysodydd yn Swyddfa'r Faner, ond tua ugain mlynedd cyn diwedd ei fywyd, dyrchafwyd ef yn is-olygydd y papur dan olygyddiaeth y Parch Robert Griffith (taid Mrs Gwen Cawthray) a bu'r ddau yn cydweithio'n llwyddiannus am gyfnod lled faith. Treuliodd William Roberts yn agos i drigain mlynedd gyda Gwasg Gee ac yr oedd iddo barch mawr ymysg ei gydweithwyr, ac wrth gwrs, y pennaeth, Thomas Gee ei hunan.

O ganlyniad, yr oedd yn adnabyddus iawn drwy'r dref ac yn uchel ei barch gan ei holl gydnabod. Tystiolaeth pawb a'i hadwaenai oedd mai Cristion cywir a gonest ydoedd.

Ers pan yn fachgen ifanc, cymerodd ddiddordeb mewn crefydd a pharhaodd felly hyd ei oes. Yr oedd yn Annibynwr selog ond nid cul, ac fel ysgrifennydd Capel Lôn Swan, daeth i gysylltiad â nifer fawr o weinidogion a swyddogion yr enwad hwnnw. Yr oedd ei atgofion am rai o'r hen bregethwyr yn hynod ddiddorol a'r gallu i adrodd darnau helaeth o'u pregethau.

Ym Mawrth, 1822, ac yntau'n weddol ifanc, dewiswyd ef yn ddiacon yn y capel ac erbyn hyn yr oedd eisioes yr un o ymddiriedolwyr yr achos yno.

Am flynyddoedd bu'n llafurio yn y gangen fach yn y Brwcws a hyn yn golygu iddo gerdded yno ac yn ôl, weithiau ddwywaith bob Sul. Bu o wasanaeth amhrisiadwy yno fel swyddog ac athro Ysgol Sul lle yr arhosodd ei ddylanwad a'i esiampl yn y ddau gapel am oes. Yr oedd ganddo erioed gariad arbennig tuag at y capeli bychain ac ni fyddai dim yn ormod o drafferth iddo i'w helpu.



Capel Lôn Swan



Capel y Brwcws

Cymerai ddiddordeb neilltuol yng ngweithgareddau ei enwad a sawl gwaith traddodai anerchiadau ar destunau crefyddol.

Yn Hydref 1912, ar gais ei gyd-ddiaconiaid, ac er ei fod ar y pryd yn dioddef dan wendid iechyd, darllenodd bapur ar y testun, 'Hanes Annibyniaeth yn Ninbych' hyn ar achlysur dathliad dau gan mlwyddiant a hanner yr achos. Yn dilyn hyn, fe ymgymerodd â'r dasg o gyhoeddi'r llyfr a bu diddordeb mawr yn ffrwyth ei lafur.

Ers pan sefydlwyd y Gymdeithas Gynilo, neu 'Clwb y Town Hall', fel y gelwid hi, yn yr 1860au, bu William Roberts yn gwasanaethu fel yr ysgrifennydd. Yr oedd ei onestrwydd a'i gydwybodolrwydd yn ennyn ymddiriedaeth yr holl aelodau.

Er ei ymroddiad i'w gapel, i'w waith dyddiol, ac i lu o gymdeithasau, yn ystod blynyddoedd diwethaf ei fywyd, profodd gryn lawr o 'droeon chwerw yr yrfa.' Trawyd ei briod gan afiechyd mor gas fel nad oedd yn gallu mynd o gwmpas nac i weini ar ei theulu fel yr oedd wedi arfer â gwneud. Hefyd, dioddefodd ei ferch hynaf, Emma, afiechyd difrifol ac aeth hithau hefyd yn gaeth i'w gwely yn y cartref, rhif 55, Allt y Bigwn. Serch yr holl broblemau hyn, ni chlywid William Roberts yn cwyno o gwbl. Ond, bu farw yn hollol dawel gan adael ei wraig a'i ferch mewn cyflwr truenus.

Efallai y bydd y to hynaf o ddarllenwyr y Bigwn yn cofio'r ferch arall – Miss Gwladys Roberts – yn cadw siop esgidiau i ferched, hanner ffordd i fyny Stryd y Dyffryn ar y dde, ble bu Siop I'r Dim tan yn ddiweddar (Lle Llinos heddiw).

Yn siwr, mae ein dyled yn fawr i bob un o ffyddloniaid y gwahanol enwadau, sydd wedi croniclo mor ofalus hanesion ein capeli a'n heglwysi fel y bu eu hesiampl a'u tystiolaeth yn ysbrydoliaeth i'r dyfodol.

**R M (Bobi) Owen**

n.b. Diolch filoedd i'n cartwnydd galluog, Huw, am y lluniau.

## Gŵyl Gerdd Dant Bro Nansi 2020



Annwyl Ddarllenwyr,

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi y bydd yr Ŵyl Gerdd Dant genedlaethol yn cael ei chynnal yn Theatr Llwyn, Llanfyllin ar ddydd Sadwrn 14eg o Dachwedd 2020. Dyma'r tro cyntaf i'r Ŵyl ymweld â Maldwyn ers dros hanner can mlynedd. Hen bryd iddi ddychwelyd yma!
Bydd llygaid Cymru gyfan ar y gornel hynod yma o Faldwyn, ac rydym yn edrych ymlaen at ddangos yr ardal odidog yma i weddill y wlad. Mae'r ardal yma, a Chymru gyfan yn ddyledus iawn i Nansi Richards, Telynores Maldwyn am ddiogelu a hyrwyddo sawl elfen o'n diwylliant Cymreig, ac felly mae'r Ŵyl wedi ei henwi mewn teyrnged i Nansi.
Fel cymuned mae angen i ni godi oddeutu £40,000 er mwyn cynnal yr Ŵyl. Mae'r gwaith o drefnu digwyddiadau codi arian eisoes ar y gweill. Rydym yn edrych am unigolion, busnesau, mudiadau neu gymdeithasau i noddi gwobrau'r Ŵyl. Mae'r rhain yn amrywio o £20 i £500 ar gyfer y prif gystadlaethau. Efallai bod gan rhai o'ch darllenwyr gysylltiad gyda Nansi Richards, neu ardal Maldwyn ac yn awyddus i noddi cystadleuaeth. Cysylltwch â rhian@mentermaldwyn.cymruam gopi o restr y cystadlaethau sydd ar gael i'w noddi.
Mi fyddwn hefyd yn edrych am nifer helaeth o wirfoddolwyr i stiwardio ar ddiwrnod yr Ŵyl, a gwerthfawrogwn bob cymorth gyda'r dasg yma.
Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi yn uniongyrchol.
Yn gywir,
Alun Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
07977 717164

# Gai Toms a'r Banditos yn cyhoeddi taith'ORIG'

Mae Orig Williams neu El Bandito fel yr adnabyddir, y reslwr o Gymro, wedi cario'r ddraig i bedwar ban byd, wedi brwydro'r gwylltion gwyllta', wedi ennill, colli, disgyn a chodi. Heb os nac oni bai, fe wnaeth o fyw i'r eithaf!
Dyn ffair, dyn reslo, dyn teulu, dyn mentro.
Mae Gai Toms wedi cyfansoddi chwip o albwm sy'n mynd â ni ar daith drimbwl-drambwl o fywyd Orig, o 'Balmant Aur' Ysbyty Ifan i'r rymbl yn y jyngl yn Calabar, Nigeria, gyda sain yr acordion, ffidil, trymped, trombôn a'r sacs yn llwyddo i roi'r ffync, yn ogystal â'r ffair i'r holl beth.
Mae'r sioe wedi cael adolygiadau gwych a chanmoliaeth heb ei hail ers Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy ym mis Awst eleni. Dyma gyfle arbennig i weld perfformiad byw o'r albwm a bod yn rhan o noson fydd yn ddathliad o fywyd un o'n heiconau cenedlaethol.
**Perfformir sioe ORIG yn Theatr Twm o'r Nant, Dinbych ar Nos Wener, 23ain o Dachwedd am 7:30yh**. Hefyd yn perfformio ar y noson fydd y canwr gyfansoddwr ac enillydd Cân i Gymru eleni – Elidyr Glyn. Tocynnau ar werth rwan gan Menter Iaith Sir Ddinbych ar 01745 812822.
Bydd copïau o'r sgript ar gael wedi eu hargraffu ar ffurf print bras, braille ac yn ddigidol. Cefnogwyd y daith gan Gyngor Celfyddydau Cymru.





CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsi a Gwethu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Cymdeithas Caledfryn



Ein gŵr gwadd yng nghyfarfod agoriadol tymor 2019-20 oedd Iwan Hughes, pennaeth yr Adran Saesneg yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. Mae'n enedigol o Bentrefoelas ac ymhlith ei ddiddordebau mae hel achau a chasglu hen gardiau post.

Testun ei sgwrs oedd 'Yr Ysbïwr a'r Gyrrwr Trên' sef dau Gymro, Pryce Lewis, yr ysbïwr a Morgan Jones, y gyrrwr trên, a dau Gymro a fu'n ddylanwad ar hanes America yn y 19g.

Aeth **Pryce Lewis**, Cymro Cymraeg, o'r Drenewydd i America i wneud ei ffortiwn yng nghyfnod Rhyfel Cartref America (1861-1865). Yn ddyn tal, trwsiadus, teithiodd lawer o gwmpas rhannau o America'n gwerthu llyfrau ar ran cwmni o




gyhoeddwyr gan ddysgu am hanes y wlad honno sef America'r un pryd cyn cael swydd fel ditectif gydag Asiantaeth Dditectif Allan Pinkerton yn Chicago yn 1860. Derbyniodd gymeradwyaeth ei gyflogwyr i ddatrys achos o lofruddiaeth yn Jackson, Tennessee a hynny gan ddynwared gŵr bonheddig, Arglwydd Tracy. Yn ystod ei gyfnod yno bu'n gweithredu fel ysbïwr ar ran taleithiau'r Undeb yn y Gogedd, yn casglu gwybodaeth am safleoedd milwrol byddinoedd y Confiderates yn y De.

Bu'n llwyddiannus fel ysbïwr ond cafodd ei arestio a'i ddedfrydu i'w grogi ond oherwydd ei fod yn ddinesydd Prydeinig, cafodd bardwn a'i garcharu yn Castle Thunder, Virginia.

Wedi'r Rhyfel Cartref a'i ryddhau o'r carchar, cafodd fywyd caled. Daeth ei fywyd i ben pan daflodd ei hun o adeilad uchel, y Plitzer Building, yn Efrog Newydd yn 1911.

Yn ddiweddar yn unig y cafodd garreg fedd. Anghofiwyd amdano ac Allan Pinkerton, pennaeth y cwmni ditectif, gafodd y clod am eu gwaith yn ystod y rhyfel. Doedd dim sôn am Pryce Lewis a'i rôl yn y Rhyfel Cartref.



Ychydig ohonom sydd wedi clywed am **Morgan Jones** o Dregynon wrth y Drenewydd. Ganed ef yn 1839. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn rheilffyrdd a'r cledrau haearn a bu'n brentis gyda Rheilffordd y Cambrian ond sylweddolodd fod ei ddyfodol yn America a chafodd swydd fforman yn syth gan yr enwog Grenville Dodge, y peiriannydd sifil a fu'n gyfrifol am adeiladu Rheilffordd yr Union Pacific.

Roedd yn waith caled gyda 'navvies' o wahanol wledydd oedd ond yn edmygu gweithwyr oedd yn gallu gweithio cyn galeted â hwy. Pan ddaeth y gwaith o uno dwy system rheilffordd i ben yn 1869, dathlwyd rhan sylweddol Morgan Jones yn y gwaith gan bawb. O hyn ymlaen bu'n gyfrifol am gynllunio a threfnu'r gwaith adeiladu yn ogystal â gwneud y gwaith llaw caled.

Dros 50 o flynyddoedd, cynyddodd ei enw da wrth iddo ymgymryd â gwaith adeiladu rheilffyrdd a fuasai'n ddychryn i eraill gan adeiladu rheilffyrdd ar draws America. Ei waith pwysicaf oedd ymgymryd â chwblhau y Texas a Pacific Railway gan weithio ddydd a nos.

Roedd yn ddyn busnes llwyddiannus ond byth yn rhoi cyfweliadau – roedd yn casáu cyhoeddusrwydd. Cafodd y teitl Colonel Morgan Jones er parch iddo.

Llywydd y noson oedd Llifon Jones, ysgrifennydd Cymdeithas Caledfryn a chydweithiwr â'r gŵr gwadd yn ysgol Maes Garmon a ef a dalodd y diolchiadau i Iwan.

Onibai am waith ymchwil manwl Iwan, ni fuasem wedi clywed am y ddau Gymro hyn a fu'n ddylanwad ar fywyd America yn y 18 ganrif. Roedd Iwan mor frwdfrydig a'i sgwrs mor ddiddorol – dechrau addawol iawn i'r tymor newydd.

Eglurodd Alun Jones, Trefnydd Gateway Cymdeithas Caledfryn, am ein trefniadau am y tymor newydd.



### Ysgol Twm o'r Nant

Mae'r hanner tymor cyntaf yn y flwyddyn ysgol newydd wedi hedfan heibio ac rydym wedi cael hanner tymor prysur a llwyddiannus arall. Pinacl yr hanner tymor oedd ein gwasanaethau Diolchgarwch. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn perfformio yn neuadd yr ysgol eleni gan fod yr ysgol yn cynyddu o ran niferoedd.

Aeth yr Adran Iau i berfformio eu gwasanaeth i Gapel Y Fron. Clywyd caneuon swynol iawn yn y ddau berfformiad a'r pwysigrwydd o ddiolch am bopeth sydd gennym yn amlwg yn y ddau wasanaeth. Gwnaethpwyd casgliad o £300 tuag at Gymdeithas MS Dinbych a'r Cylch.



Aeth aelodau Cyngor yr Ysgol i ymweld â Siambr y Cyngor Sir yn Rhuthun. Cafwyd bore bendigedig ac roedd pawb yn teimlo'n bwysig iawn yno. Roedd Meilir a Tara sef aelodau hynaf Cyngor yr Ysgol yn edrych yn gyfforddus iawn yn y sedd bwysig yn y siambr.




Ar fore Gwener, Medi 27ain, cynhaliwyd Bore Goffi Macmillan mawr yn yr ysgol. Cafodd bawb gacen a chasglwyd £165 tuag at yr elusen

Cafodd y plant wisgo fel anifail neu mewn dillad gwyrdd ar gyfer ein diwrnod Eco. Roedd hi fel jwngl yma, gyda'r dosbarthiadau yn llawn mwncïod, llewod ac eliffantod ac amryw anifail arall! Codwyd £208 tuag at Y Worldland Trust.






Llongyfarchiadau mawr i un o athrawesau yr ysgol sef Miss Helen Wynne ar ei phriodas yn ddiweddar. Dymunwn pob dymuniad da i Helen ac Elgan yn eu bywyd priodasol.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i ddwy aelod o'r staff sydd wedi cael babi. Mae Miss Gwenan Williams wedi rhoi genedigaeth i Charlie James a Mrs Ffion Jones wedi rhoi genedigaeth i Math Rhys. Dymuniadau gorau i'r ddau deulu ac rydym i gyd yn edrych ymlaen yn fawr i gael cwrdd â'r ddau fach yn yr ysgol.



**<u>Newyddion yr Uned dan 5</u>**

Mae hi wedi bod yn hanner tymor eithriadol o brysur yn yr Uned dan 5. Rydym wedi croesawu 31 o blant bach newydd i'r Dosbarth Meithrin ac maen nhw i gyd wedi setlo i mewn i fywyd ysgol yn eithriadol o dda.

Mae'r tymor cyntaf yn gyfle i bawb o fewn yr Uned i wneud ffrindiau newydd ac i ymgyfarwyddo â'r ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan. Rydym wedi cael llawer o hwyl yn dysgu am ein cyrff, ein synhwyrau, ein teimladau a sut i fwyta'n iach.



Dyma Mared a Gwil wedi cydweithio'n wych i greu gwyneb efo ffrwythau a llysiau.



Mae pob math o arogleuon hyfryd yn y dosbarth tu allan. Diolch, genod, am greu tusw o flodau peraroglus!



Cawsom hwyl yn siopa am ffrwythau iach er mwyn gwneud cebabs ffrwythau. Dyma rai o blant y Dosbarth Derbyn yn Aldi.

**Newyddion yr Uned Dan 7.**



Rydym wedi cael cychwyn prysur i'n blwyddyn ysgol eleni, gyda phawb wedi ymgartrefu yn wych yn eu dosbarthiadau newydd, yn dod i arfer â'r drefn ac yn dysgu sgiliau newydd.

Ein thema yn ystod yr hanner tymor diwethaf yn yr Uned Dan 7 oedd "Fi fy hun." Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu am ein hunain, ein corff a sut i'w gadw'n iach.




Rydym wedi bod yn brysur yn coginio a blasu cwscws yn y Briws gyda Mrs Jones ac yn mwynhau cynllunio ac adeiladu ras rwystrau y tu allan gyda Mrs Williams. Am hwyl!









Rydym wedi cynnal dau ymchwiliad yn ystod ein thema sef ymchwiliad i ddarganfod pa fwydydd sydd yn iach a pha fwydydd sydd ddim yn iach ac ymchwiliad i mewn i faint o siwgr sydd mewn gwahanol ddiodydd. Roedd y canlyniadau yn ddiddorol iawn!







Rydym wedi bod yn trafod nodweddion yr Hydref yn y dosbarth tu allan ac wedi manteisio ar yr holl ddail a brigau sydd o’n cwmpas i greu lluniau o gyrff.

Diolch yn fawr i Mrs Rhian Rowlands a ddaeth i gael sgwrs gyda ni i godi ymwybyddiaeth am Glefyd Siwgr. Rydym wedi dysgu llawer am y cyflwr. Cawsom gyfle i drafod beth yr oedden wedi ei ddysgu gyda’n  Partner Trafod yn y dosbarth.




Cawsom daith hwyliog ar Hydref y 15fed i Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun i  Jambori Martyn Geraint. Cawsom brynhawn hwyliog yn canu a dawnsio gyda llawer o blant eraill o'r ardal.
Rydym wedi bod yn hynod brysur yn ystod yr hanner tymor yma yn paratoi at ein Gwasananeth Diolchgarwch. Cawsom wasanaeth hyfryd yn neuadd yr ysgol ar fore Mercher, Hydref 16eg.
Diolch i bawb a ddaeth i wylio. Roedd y neuadd yn orlawn! Diolch hefyd i bob un o'r plant am ddysgu eu gwaith yn wych!




**<u>Newyddion yr Uned dan 9</u>**

Mae'r uned wedi bod yn dilyn thema Gourmet Byd Eang. Ar ddechrau'r thema bu'r plant yn edrych sut i wneud paned o de ac o ble daw ein te. Aeth nifer o'r plant adref i wneud paned i'w teuluoedd!
Mae'r plant wedi bod yn dysgu am bwysigrwydd edrych ar ôl eu corff. Croesawyd Dr Thomas, deintydd yn Ninbych, i'r uned a bu'n son am sut i ofalu am ein dannedd.




Un o hoff weithgareddau'r plant yn yr uned yr hanner tymor yma oedd cael darllen y llyfr Y Frechdan Ych-a fi a chreu brechdan ych-a-fi eu hunain. Aethant allan i gasglu nifer o bethau afiach i roi yn eu brechdan. Roedd hi'n saff i ddweud doedd neb eisiau blasu eu brechdan ar ôl ei gwneud.



Aeth 5 tim o'r Uned dan 9 i Ŵyl Rygbi TAG yn Ysgol Glan Clwyd yn ddiweddar. Cawsant gyfle i chwarae yn erbyn timau o ysgolion eraill a gwneud ffrindiau. Dyma lun o 2 dîm a aeth i chwarae.




Rydym fel ysgol yn pwysleisio defnyddio dwylo a cheg garedig bob amser. Cawsom gwmni PC Brown yn yr Uned dan 9 yn ddiweddar i atgyfnerthu hyn. Roedd ei chyflwyniad â neges bwysig iawn.

**Newyddion yr Uned dan 11**

Cafodd Merched Uned Dan 11 llawer o hwyl yn yr Ŵyl Bel-droed yn Ysgol Uwchradd Dinbych.
Daeth 4 o griw Blwyddyn 10 Ysgol Glan Clwyd i weithio yn yr Uned yn ddiweddar. Daeth Mared, Mared, Jac ac Anest i roi blas i'r Uned am y math o weithgareddau y maent yn ei gael yn yr Ysgol Uwchradd. Mwynhaodd pawb ddysgu ychydig o Ffrangeg a gwneud gweithgareddau celf a dylunio a thechnoleg. Maen nhw'n edrych ymlaen nawr i gael symud i fyny i'r Ysgol Uwchradd yn barod!!

At fore Sadwrn, Hydref 5ed, aeth llawer o'r ysgol i Brestatyn er mwyn cymryd rhan yng Ngorymdaith Urdd 2020. Roedd hi'n fore braf iawn a phawb wedi mwynhau cerdded a chanu ar y llwyfan. Edrychwn ymlaen yn fawr nawr at gael croesawu Eisteddfod yr Urdd i'r dref. Mi fyddwn yn siwr o fod yn brysur iawn fel ysgol o hyn tan yr Eisteddfod!!







**Newyddion yr Uned dan 11**

Mae hi'n flwyddyn newydd yma yn Ysgol Twm O'r Nant ac mae'r disgyblion wedi ymrwymo i'n thema o'r cychwyn cyntaf sef Yr Ail Ryfel Byd. Rydym wedi derbyn llwyth o bethau o gyfnod y rhyfel gan deulu'r dysgwyr. Cofiwch os oes gennych chi unrhyw hanesion diddorol am yr Ail Ryfel Byd, byddem yn hynod o ddiolchgar o'u clywed yma yn yr ysgol.



Yn ystod yr hanner tymor yma roeddem yn hynod o lwcus i gael mascot Cymru Shenkin i ddod i ddangos ei wisg i ni. Cawsom lawer o hwyl yn ateb a gofyn cwestiynau amdano ac yn dymuno pob lwc i Gymru yng Nghwpan y Byd yn Siapan.

SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar **01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

Plaid Cymru | Party of Wales

**Llyr Gruffydd AC**



**Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:**

**Llyr Gruffydd AC**
**Canolfan Fusnes Birch House**
**Hen Lôn Parcwr**
**Rhuthun**
**LL15 1HN**
**01824 703593**
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**

**@LlyrGruffydd**

**www.llyrgruffydd.cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Drysau Agored

Roedd Penwythnos Drysau Agored ar ddiwedd Medi yn benwythnos lwyddiannus er y glaw ar y dydd Sul. Mae'r penwythnos yn rhan o ddigwyddiad treftadaeth Ewropeaidd sy'n cael cefnogaeth Cadw yn genedlaethol.

Mae Dinbych yn dref hanesyddol gyda mwy o adeiladau cofrestredig nag unrhyw dref arall yng Nghymru. Mae'r dref yn brolio dros 230 o adeiladau rhestredig mewn amrywiaeth hyfryd o arddulliau – o goed a cherrig canoloesol i frics Fictorianaidd crand. Mae'r Stryd Fawr sy'n ddigon llydan ar gyfer marchnad yn cynnwys yr hen Neuadd y Sir a adeiladwyd yn 1572 ac yn awr yn llyfrgell a gerllaw mae strydoedd clos yn rhoi'r ymdeimlad o gynllun tref ganoloesol.

Eleni, roedd cyfle inni ymweld ag adeiladau sy'n rhychwantu naw chanrif ac ar ôl absenoldeb o sawl blwyddyn, croesawyd yn ôl Capel Pendref, y capel Wesleiaidd cyntaf i gael ei adeiladu yng Nghymru - agorodd Capel Pendref ei ddrysau ar ddydd Calan 1802.



Yn 1861 cytunwyd i helaethu'r adeilad drwy godi ei uchder ac ymestyn ei hyd ar gost o £365.

Yn ystod 1882-83 ad-drefnwyd y tu mewn i'w ffurf bresennol ac adeiladwyd festri fawr ar gyfer dros 200 o bobl ac adeiladwyd dwy festri lai ar gyfer yr Ysgol Sul a'r cyfarfodydd wythnosol.

120 o flynyddoedd yn ddiweddarach (2019) gwariwyd swm sylweddol ar drwsio ac adnewyddu'r nenfwd, trwsio rhan o do'r capel a'r cyntedd, ail doi'r festri a'r tŷ capel a pheintio tu mewn y capel yn gyfan gwbl. Mae'r capel yn enghraifft gain o'i gyfnod.


Roedd cyfle hefyd inni ymweld â llawer o adeiladau eraill yn y dre yn cynnwys:


1. Amgueddfa Gwefr Heb Wifrau.
2. Neuadd Seiri Rhyddion Dinbych (cyn Gapel yr Annibynwyr Tower Hill),
3. Sgwar y Goron (Travelsport).
4. Carriageworks
5. Porth y Bwrdeiswyr sef y fynedfa i'r dref furiog o 1282 ymlaen.
6. Castell Dinbych.
7. Muriau Tref Dinbych
8. Bryn y Parc yn Stryd y Parc.
9. Eglwys Gatholig Sant Joseff
10. Gardd Goffa'r Dr. Evan Pierce.
11. Amgueddfa Dinbych.
12. Brodordy Dinbych sy'n adfail hen dŷ mynachaidd, Ffordd y Rhyl.
13. Eglwys Llanfarchell ar Ffordd Llandyrnog.
14. Crochendy Brwcws.
15. Eglwys Sant Ilar (St. Hilary) – dymchwelwyd ar wahân i'r twr yn 1923.
16. Eglwys yr Iarll Caerlyr – Robert Dudley ddechreuodd ei hadeiladu yn 1578. Roedd yn rhan o gynllun mawreddog yr Iarll o drosglwyddo'r Esgobaeth o Lanelwy i Ddinbych ond fe atalwyd y gwaith yn 1584.

Roedd teithiau, digwyddiadau ac arddangosfeydd yn rhan o'r penwythnos. Trefnwyd taith o gwmpas Coleg Myddelton ac o amgylch Heigad a Lôn Pendref. Yn Amgueddfa Gwefr heb Wifrau cafwyd penwythnos llawn o wahanol ddigwyddiadau yn ymwneud â darlledu a bu arddangosfeydd yn yr Amgueddfa gan gynnwys arddangosfa o fedalau Percy Ellis ac o hetiau. Bu Darlith Treftadaeth yn Theatr Twm o'r Nant.

Trefnir y penwythnos gan griw o wirfoddolwyr brwdfrydig. Diolch i'r pwyllgor am benwythnos brysur a diddorol.

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**

**SIOP CLWYD**
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431

Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau


MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

## Clwb Pêl-droed Dinbych

Canlyniadau cymysg a gafodd y Tîm Cyntaf yn ystod y mis diwethaf. Dechreuon nhw'r mis ar frig Cynghrair Lock Stock 1 Cymru, ond wedi dwy golled, maenhw wedi disgyn i'r trydydd safle. Mewn gemau cwpan, maent wedi cyrraedd rowndiau nesaf Tlws FAW yn ogystal â Chwpan Cookson, ond wedi colli eu lle yng Nghwpan JD Cymru.

Enillon nhw o 2-1 yn erbyn Halkyn a Mynydd y Fflint a arweinion nhw at ail rownd Tlws FAW gyda dwy gôl gan Jake Walker. SgorioddJake Walker un gôl hefyd yn erbyn Penrhyndeudraeth yng Nghwpan Cookson gyda Dan Clarke yn sgorio'r ail – gôl arbennig o 20 llath! Roedd colledyng Nghwpan JD Cymru yn Central Park yn erbyn Mynydd Isa Spartans. Y tîm o Fynydd Isa oedd yr enillwyr o 3-2 gyda goliau gan Jake Walker a Sion Jones i Ddinbych.

Yn ystod gemau'r gynghrair, gwelwyd dwy golled, y gyntaf o 1-0 oddi cartref ym Modedern. Roedd y llall mewn gêm gartref yn erbyn Llandudno Albion ble enillon nhw o 3-2 gan symud Llandudno i frig y gynghrair. Roedd torf o bron i 200 o bobl yno a daeth y goliau gan Jake Walker a Sion Jones.

Yn dilyn canlyniadau'r mis diwethaf, mae'r tîm rheoli, Dewi Llion ac Owain Roberts wedi dechrau cryfhau'r garfan ac wedi arwyddo'r blaenwr Rhys Rowlands o Rhuthun, y cefnwr Chris Bennett o Brestatyn a'r chwaraewr ganol cae Paul Fleming o Lanelwy.

Mae'r Ail Dîm dan reolaeth Nick Hailes, Johnny Roberts a Gethin Jones wedi chwarae pedair gêm dros y mis diwethaf gan ennill dwy, un gêm gyfartal a cholli un. Cafwyd buddugoliaeth o 6-0 mewn gêm gwpan yn erbyn Prestatyn gyda thair gôl gan Josh Griffiths, dwy gan Andy Thomas ac un gan Owen Heath. Daeth y goliau gan Gwion Bibby a Luke Farley mewn gêm gynghrair o 2-0 yn erbyn Penmaenmawr Phoenix.

Dilynwyd hyn gyda cholled gyntaf y tymor yn erbyn Llanberis oddi cartref o 3-2 gyda dwy gôl gan Andy Thomas. Sgoriodd Andy Thomas hefyd ddwy gôl yn erbyn Llanrwst mewn gêm gyfartal 3-3, gyda Luke Farley yn sgorio'r drydedd.

Mae'r Ail Dîm ar hyn o bryd yn y pumed safle yng Nghynghrair Ail Dîm Lockstock Cymru gyda gemau mewn llaw i'w chwarae hefyd.



Tîm Datblygu Dinbych 2019-20 a'u tîm rheoli:

Mae tîm ifanc Datblygu Dinbych dan reolaeth Craig Morris a Dan Whitfield yn gwneud cynnydd cyson yng Nghynghrair Dyffryn Clwyd a Chonwy 2. Bu sawl gôl yn eu gemau gan gynnwys gêm gyfartal o 4-4 yn erbyn Penrhyn Dragons gyda'r chwaraewr 17 oed, Joel Rowlands yn sgorio'r bedair i Ddinbych. Trip i Lanfairfechan oedd nesaf ble y collon nhw o 6-4.

Cafwyd gêm ddarbi yn erbyn Henllan yn Central Park. Joel Rowlands unwaith eto a sgoriodd un o'r goliau a'r ail gan Alfie Harrison.

**Iwan Jones**



Sion Jones a sgoriodd ddwy gôl i Ddinbych yn ystod y mis diwethaf.

## CLWB RYGBI DINBYCH

Wedi colli'r ddwy gêm oddi cartref ym Mhwllheli ar ddydd Sadwrn cynta'r tymor swyddogol, roedd gwaeth i ddod ar Gaeau Les Phillips wythnos yn ddiweddarach. Colli'n drwm yn erbyn yr hen elyn o Rhuthun wnaeth y ddau dîm, gyda'r Tîm Cyntaf yn colli o 31-3 a'r Ail Dîm yn mynd i lawr o 45-3.

Teithiodd yr Ail Dîm i'r Canolbarth ar y dydd Sadwrn canlynol a pherfformio'n llawer gwell yn erbyn Tîm Cyntaf Machynlleth, oedd wedi gorffen yn yr ail safle yn Adran 3 y tymor cynt. Collwyd y gêm o 11-10 gyda chic gosb i'r tîm cartref ym munudau ola'r gêm. Kieran Bonar sgoriodd unig gais Dinbych, wedi ei drosi gan Garin Roberts, ac ychwanegodd Tom Evans driphwynt gyda chic gosb.

Gydag un o aelodau blaenllaw'r Clwb yn dewis priodi yn ystod y tymor rygbi (!) a nifer o'r chwaraewyr wedi derbyn gwahoddiad, bu'n rhaid gohirio gêm gartref yr Ail Dîm yn erbyn Rhosllannerchrugog, a theithiodd y Tîm Cyntaf i Ddolgellau gyda thîm hynod ddibrofiad. O ganlyniad collwyd y gêm o 20-6, gyda Gruff Roberts yn llwyddo gyda dwy gic gosb.

Ond daeth newyddion gwell ar ddechrau mis Hydref, gyda'r Tîm Cyntaf yn ennill eu gêm gyntaf o'r tymor yn erbyn yr ymwelwyr o Fro Ffestiniog. Kieran Bonar sgoriodd unig gais Dinbych mewn buddugoliaeth o 17-12, gyda Gruff Roberts yn ychwanegu 12 pwynt gyda phedwar cic gosb.

Yn anffodus, ochr arall y geiniog oedd y ffaith fod yr Ail Dîm wedi colli'n drwm yng Nghaergybi o 87-0 yn erbyn tîm ar frig Adran 3 gyda record 100%. Rhaid felly llongyfarch y bechgyn am ddangos yr ymroddiad a'u ffyddlondeb i'r Clwb yn teithio i bendraw Ynys Môn i wynebu gwrthwynebwyr mor gryf. Yn wir, cafodd y ffyddlondeb hwn ei wobrwyo yn eu gêm nesaf, gartref yn Ail Rownd Tlws Undeb Rygbi Cymru yn erbyn Rhosllannerchrugog. Croesodd Toby MacAlpine y llinell ddwywaith, gyda chais yr un i Rowan Hughes a Tom Seddon a dau drosiad gan Robyn Cartwright ac un i Tom Seddon yn sicrhau buddugoliaeth addawol o 26-19.

Erbyn hyn mae'r Adran Mini/Iau wedi chwarae nifer o gemau yn erbyn gwahanol dimau o Ogledd Cymru, gyda chanlyniadau digon cymysg ar y cyfan. Y tîm mwyaf llwyddiannus hyd yn hyn ydy'r Dan 11, gyda thair buddugoliaeth, colli dwy gêm gydag un yn gyfartal. Collodd y Tîm Dan 15 eu dwy gêm, gyda'r Dan 14 yn colli eu hunig gêm, Dan 13 yn colli pedair a'r Dan 9 yn ennill un a cholli un.

***John Davies***


SUMAE
#SumaeSirDdinbych
SU'MAE
#ShwmaeSumae
Menter Iaith Sir Ddinbych


SUMAE
#SumaeSirDdinbych

# Gŵyl Eirin


Denbigh plum




ARTISAN


Shlizzy
Favours, Gifts & Cakes
50ml
Perfect for Cocktails
We grow the fruit on farm


JOCK'S HOT SAUCE
YOGURT WITH DENBIGH PLUM & GRANOLA
DONATIONS OF
DENBIGH

## Ras Liwiau



Gyda 7 mis i fynd tan Eisteddfod yr Urdd, mae'r gwaith codi arian a'r gweithgareddau yn parhau. Mae nifer o weithgareddau wedi bod a rheini'n llwyddiannus iawn fel yr Arwerthiant Addewidion, Noson Rhedeg yn ôl i Baris, y Ras Liwiau 5k a'r Daith i Gaerefrog. Diolch i chi am eich cefnogaeth hyd yma. Rydym wedi llwyddo i gasglu dros £38,000.











## Ffair Aeaf Capel Y Fron



Am fargen!!!!



Mae'r cacennau'n werth pob ceiniog



Paned yn plesio



Be dach chi'n feddwl o hon?